CRONFA GOFFA'R
DREFTADAETH
GENEDLAETHOL

# Adroddiad a Chyfrifon
2011–2012



CRONFA GOFFA'R
DREFTADAETH
GENEDLAETHOL

# Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag Adran 7(1) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980, a chyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 7(3) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

**Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 11 Gorffennaf 2012**
**Cyflwynwyd gan Weinidogion Yr Alban gerbron Senedd Yr Alban 12 Gorffennaf 2012**
**Cyflwynwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon 5 Medi 2012**

HC 295
SG/2012/109 Llundain: Y Llyfrfa £16

**Clawr blaen:** Gwerinwr yn tocio coeden yn un o bedair cylchig gwydr lliw a brynwyd gan Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich gyda chymorth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae'r cylchigau o'r 16eg ganrif yn darlunio Llafuriau'r Misoedd

© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2012
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol neu logos asiantaeth eraill, lle bônt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a nodi teitl y ddogfen. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
7 Holbein Place
Llundain SW1W 8NR

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:
www.official-documents.gov.uk
Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd:
www.nhmf.org.uk

ISBN: 9780102978193

Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa Gyfyngedig ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2492384 07/12

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys


2 Rhagair gan y Fonesig Jenny Abramsky Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

4 *The Watsons* gan Jane Austen

6 Cadw drws agored – cartref Hedd Wyn

8 Rhan o Ystad Wards

10 Coffr a stand Beckford

11 Celc aur Eingl-Sacsonaidd

12 Archif Is-ieirll Melville

14 Cist win arian yr Arglwydd Raby

16 Adfer y Dornier Do 17

18 Cylchigau gwydr lliw o'r 16eg ganrif

20 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu
Sylwadau'r rheolwyr

26 Adolygiad ariannol

28 Adroddiad tâl

31 Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

32 Datganiad llywodraethu

37 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban

38 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

39 Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

40 Datganiad Llifoedd Arian

Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net

41 Nodiadau i'r Cyfrifon

50 Cadeirydd, Ymddiriedolwyr a Rheolwyr

Cydnabyddiaethau

## Rhagair gan y Fonesig Jenny Abramsky
Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol



Ni allwn fyth fod yn siwr o ble daw'r her nesaf – mae hynny'n ffaith bywyd i bawb sy'n gysylltiedig ag achub treftadaeth y DU. Ar ben hynny, pan fydd treftadaeth mewn perygl, mae angen penderfyniadau ac arian yn gyflym iawn, a'r farchnad yn aml sy'n pennu pa mor gyflym. Pe na bai Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) yn bodoli, byddai'n rhaid ei chreu nawr. Fel ariannwr treftadaeth cyfle olaf y DU, mae CGDG yn cyfuno arbenigedd ac ymatebolrwydd, gan symud yn gyflym ac yn bendant pan fydd yr angen yn codi.

Fe wnaeth rhinweddau arbennig CGDG brofi'u gwerth eto yn achub treftadaeth eithriadol i'r genedl yn ystod 2011–2012. Wrth adolygu gweithgarwch y flwyddyn, caf fy nharo gan galibr ac amrywiaeth y dreftadaeth rydym wedi helpu ei hachub i genedlaethau'r dyfodol ddysgu ohoni a'i mwynhau. Mae'n cynnwys llawysgrif brin, cartref bardd, campwaith llestri arian Baróc, celc o aur Eingl-Sacsonaidd yn ogystal â gwlyptir prin, gwydr lliw a threftadaeth filwrol. Gyda'i gilydd, mae'r gwrthrychau, yr adeiladau a'r lleoedd hanesyddol hyn yn dystiolaeth huawdl i gwmpas a hyblygrwydd cefnogaeth CGDG i dreftadaeth sydd dan fygythiad.

Ein treftadaeth lenyddol yw un o ogoniannau mawr y DU, ac mae CGDG wedi bod yn weithredol yma gyda dau ddyfarniad allweddol. Yn wyneb cystadleuaeth ryngwladol danbaid, fe wnaethom alluogi Llyfrgell Bodley yn Rhydychen i gaffael llawysgrif brin eithriadol o waith Jane Austen. Mae hwn yn ddrafft cynnar sy'n cynnwys llu o ddiwygiadau o'i nofel nas cyhoeddwyd *The Watsons*, ac o hwn cawn gipolygon byw i broses greadigol y nofelydd gwych – cipolygon y caiff pawb gyfle nawr i'w rhannu drwy'r arddangosfa ar-lein *Treasures of the Bodleian*. Fe wnaethom hefyd helpu achub Yr Ysgwrn, cartref bardd y Rhyfel Byd Cyntaf a'r bardd Eisteddfodol enwog Hedd Wyn, yn Eryri, rhag cael ei werthu. Heb newid dim bron ers iddo ysgrifennu yno, ychydig cyn ei farwolaeth yn y ffosydd ym 1917, mae'r ffermdy a'r dirwedd o'i amgylch yn gapsiwl amser o fywyd cefn gwlad yng Nghymru ar ddechrau'r 20fed ganrif, yn ogystal â safle diwylliannol o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae barddoniaeth Hedd Wyn yn ein hatgoffa o ysbryd sefydlu CGDG – y dymuniad i ddarparu cofadail briodol i'r dynion a'r menywod sydd wedi aberthu'u bywydau dros y DU mewn gwrthdaro arfog.

> "Mae CGDG yn cyfuno arbenigedd ac ymatebolrwydd, gan symud yn gyflym ac yn bendant pan fydd yr angen yn codi."

Tra bod llawysgrif Jane Austen ymysg yr eitemau gwirioneddol eithriadol o bwysigrwydd cenedlaethol y chwaraeodd CGDG ran yn eu hachub, mae'r Gronfa yn gwasanaethu treftadaeth ranbarthol a lleol yn dda hefyd. Eleni, fe wnaethom helpu Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich i gaffael set hynod o gylchigau gwydr lliw o'r 16eg ganrif sy'n darlunio Llafuriau'r Misoedd. Wedi'u gwneud yn Norwich, ar gyfer masnachwr lleol mae'n debyg, mae'r rhain yn enghreifftiau hardd o'r gwaith gwydr lliw y bu'r ddinas yn enwog amdano.

Galwyd ar gymorth CGDG hefyd i ddiogelu treftadaeth naturiol. Fe wnaeth grant gennym ni alluogi Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yr Alban i brynu gwlyptir gorlifdir yn Llyn Llumonwy, gan sicrhau y gellir gwarchod cynefin sy'n bwysig i wyddau talcen-wyn yr Ynys Las, gweilch y pysgod, llinosiaid pengoch a rhywogaethau arbennig eraill.


Mae llwyddiant CGDG yn 2011–2012 o ran defnyddio adnoddau ariannol cyfyngedig i gefnogi amrywiaeth mor drawiadol o fathau gwahanol o dreftadaeth yn deyrnged i ymrwymiad ein Hymddiriedolwyr, ein staff a'n panelau ymgynghorol a buddsoddi, a chymeraf y cyfle hwn i ddiolch iddynt. Gan fod ceisiadau am gyllid CGDG yn dal yn fwy o lawer na'n cyllid, nid yw'r gorchwyl fyth yn un hawdd. Yn yr hinsawdd ariannu sydd ohoni, mae wedi dod yn anoddach os rhywbeth, ac ar yr un pryd, yn fwy hanfodol nag erioed. Gan fod ffynonellau cymorth eraill ar gyfer treftadaeth wedi'u lleihau, daw rôl CGDG yn un bwysicach fyth. Sefydlwyd CGDG fel 'cronfa cyfle olaf', ond ni ddylai'r ymadrodd hwn ein dallu i'r ffaith, mewn llawer o achosion heddiw, mai CGDG i bob pwrpas yw llinell flaen y DU ar gyfer achub ein treftadaeth fwyaf rhagorol sydd mewn angen.



**Y Fonesig Jenny Abramsky**
Cadeirydd CGDG

"Mae llwyddiant CGDG o ran defnyddio adnoddau ariannol cyfyngedig i gefnogi amrywiaeth mor drawiadol o dreftadaeth yn deyrnged i ymrwymiad ein Hymddiriedolwyr, ein staff a'n panelau ymgynghorol a buddsoddi."

Ar y dde: Ffolio o *The Watsons*



he had nothing more to say for some time, & could only gratify his Eye by occasional glances at her fair neighbour. Emma was not inclined to give herself much trouble for his entertainment — & after hard labour of mind, he produced the remark of its being a very fine day, & followed it up with the question of "Have you been walking this morning?" "No, my Lord. We thought it too dirty." "You should wear half boots." After another pause, "Nothing sets off a neat ancle more than a half boot. nankin galoshed with black looks very well. Dont you like Half boots?" "Yes — but unless they are so stout as to injure their beauty, they are not fit for Country walking." "Ladies should ride in dirty weather. Do you ride?" "No my Lord." "I wonder every Lady does not. A woman never looks better than on horseback." "But every woman may not have the inclination, or the means." "If they knew how much it became them, they would all have the inclination. & I fancy Miss Watson — when once they had the inclination, the means wd soon follow."

## *The Watsons* gan Jane Austen

Llyfrgell Bodley

**£894,700**

Yn stori am bedair chwaer sy'n chwilio am gariad a phriodas, roedd nofel Jane Austen *The Watsons* wedi'i thynghedu i fod yn anorffenedig. Credir iddi ei hysgrifennu yng Nghaerfaddon oddeutu 1804–05. Er na chyhoeddwyd y nofel erioed, ailweithiwyd llawer o'r stori ar gyfer ei nofelau diweddarach, a *Mansfield Park* yn nodedig. Gyda'i nifer fawr o ddiwygiadau a dileadau, mae llawysgrif Austen o *The Watsons* yn mynd â ni'n ddyfnach i'w phroses greadigol. Dyma'r agosaf y gallwch fynd i edrych dros ysgwydd y nofelydd wrth iddi ysgrifennu.


"Your Lordship thinks we always have our own way. – That is a point on which Ladies & Gentle: have long disagreed – But without pretending to decide it, I may say that there are some circum: stances which even Women cannot controul. – Female Economy will do a great deal my Lord, but it cannot turn a small income into a large one." – Ld Osborne was silenced. Her manner had been neither sententious nor sarcastic, but there was a something in its mildness, as well as in the words themselves which made his Lordship think; – and when he addressed her again, it was with a degree of considerate propriety, totally unlike the half awkward, half fearless stile of his former remarks. – It was a new thing with him to wish to please a woman; it was the first time that he had ever felt what was due to a woman, in Emma's situation. – But as he wanted neither Sense nor a good disposition, he did not feel it without effect. – "You have not been long in this Country I understand, said he in the tone of a Gentleman. I hope you are pleased with it." – He was rewarded by a

approach, who opening in her head, said "Please Ma'am, Master wants to know why he be'nt to have his Dinner." – The Gentlemen, who had hitherto disregarded every symptom, however positive, of the nearness of that Meal, now jumped up with apologies, while

Y llawysgrif hon, sy'n cynnwys 68 tudalen wedi'u rhannu'n nifer o lyfrynnau o'i gwaith ei hun, yw'r drafft cynharaf hysbys o nofel gan Jane Austen ac un o'r drafftiau gweithio cynharaf o nofel Seisnig i oroesi. Hwn oedd yr olaf o'i llawysgrifau i aros mewn dwylo preifat. Roedd CGDG yn gefnogol iawn i gynnig Llyfrgell Bodley i gaffael yr eitem nodedig hon o dreftadaeth lenyddol, ac roedd yn hynod falch o'i llwyddiant yn wyneb cystadleuaeth frwd.

Roedd *The Watsons* ar gael i'r cyhoedd ei weld yn syth ar ôl ei brynu, fel rhan o arddangosfa dros dro fawr yn Llyfrgell Bodley. Bydd y llyfrgell – sy'n ganolfan fyd-enwog am astudiaethau Jane Austen – yn edrych ar gynlluniau nawr i arddangos y llawysgrif ymhellach. Yn y cyfamser, gellir ei gweld fel rhan o'r archif ddigidol ar www.janeausten.ac.uk, prosiect ar y cyd gan Brifysgol Rhydychen a Choleg y Brenin, Llundain, sy'n ailuno llawysgrifau ffuglen Austen am y tro cyntaf er 1845.

# Cadw drws agored – cartref Hedd Wyn

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## £350,423

Ffermdy cerrig cyffredin ger pentref Trawsfynydd yn Eryri yw Yr Ysgwrn. Rhwng y 1890au a 2011, roedd tir y fferm yma yn berchen ac yn cael ei weithio gan deulu'r prif fardd o Gymru Ellis Humphrey Evans. Yma yn Yr Ysgwrn y cafodd Evans, sy'n fwy adnabyddus yn ôl ei enw barddol Hedd Wyn, ei fagu, a dyma ble'r ysgrifennodd y cerddi a oedd, erbyn ei farwolaeth yn 30 oed, eisoes wedi ei wneud yn adnabyddus mewn Eisteddfodau ledled Cymru. Ym 1992 roedd ei fywyd yn destun prif ffilm, *Hedd Wyn*, sef y ffilm Gymraeg gyntaf i'w henwebu ar gyfer Oscar.

Mae Hedd Wyn yn perthyn i genhedlaeth o feirdd Prydeinig ifanc, gan gynnwys Wilfred Owen a Siegfried Sassoon, y mae eu gwaith yn siarad dros brofiad miliynau o'u cyfoedion yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ei gerdd *Rhyfel*, disgrifia Hedd Wyn 'Gwaedd y bechgyn lond y gwynt,/ A'u gwaed yn gymysg efo'r glaw'. Ychydig cyn iddo gael ei ladd ym Mrwydr Passchendaele ym mis Gorffennaf 1917, cwblhaodd Hedd Wyn ei gerdd fawr *Yr Arwr*, a oedd i ennill cadair farddol iddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ôl iddo farw. Mewn seremoni â'r Prif Weinidog bryd hynny, David Lloyd George, yn bresennol, gorchuddiwyd y gadair â llen ddu fel symbol o alaru dros y bardd ac ieuenctid y genedl gyfan.

Roedd 'Y Gadair Ddu' i aros yn Yr Ysgwrn, ynghyd â phum cadair farddol arall Hedd Wyn. Cafodd cartref y teulu ei warchod yn ofalus fel ag yr oedd yn ystod ei oes yntau, ac fe'i agorwyd i'r cyhoedd. Yn y cyfamser, parhaodd y tir o'i amgylch i gael ei reoli dan gyfundrefn bori draddodiadol ffermydd mynydd. Yn 2011, pan orfododd henaint i nai'r bardd roi'r gorau i ffermio yn y pen draw, cytunodd i werthu'r tŷ a'r tir i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, er mwyn sicrhau parhau â'r traddodiad oesol o gadw drws agored i ymwelwyr.

Mae Yr Ysgwrn yn gapsiwl amser unigryw sy'n adrodd hanes bywyd y bardd yn ogystal â hanes ehangach cefn gwlad Cymru ar ddechrau'r 20fed ganrif. Pe bai wedi'i werthu ar y farchnad agored, mae bron yn sicr y byddai cynnwys y tŷ wedi'i wasgaru a'r fferm wedi'i throi at gyfundrefn fodern o reolaeth amaethyddol. Yn lle hynny, mae CGDG wedi hwyluso'r ffordd i gadw tu mewn y tŷ a'r dirwedd amaethyddol draddodiadol o'i gwmpas fel safle o bwysigrwydd llenyddol cenedlaethol a fydd yn cael ei fwynhau gan lawer mwy o ymwelwyr yn y blynyddoedd i ddod.





**Clocwedd o'r prif lun:** Cadair farddol Hedd Wyn ar ôl ei farwolaeth, a ddyfarnwyd am ei gerdd *Yr Arwr* ym 1917; Yr Ysgwrn, ar ddechrau'r 20fed ganrif; Hedd Wyn


YR ARWR

## Rhan o Ystad Wards
RSPB Yr Alban

**£172,000**

**Isod:** Golygfa dros Lyn Llumonwy, gyda gwlyptir gorlifdir Ystad Wards ar y dde, wrth aber Afon Endrick

Mae Ystad Wards yng nghornel de ddwyreiniol Llyn Llumonwy, lle mae Afon Endrick yn llifo i mewn i'r llyn. Yn ogystal â choetiroedd a glaswelltir sych, mae'n cynnwys y safle gwlyptir mwyaf yn Llyn Llumonwy a Pharc Cenedlaethol Trossachs. Hwn yw un o'r enghreifftiau gorau sydd ar ôl yn yr Alban o fosaig cyfan o wlyptir gorlifdir, cynefin sydd wedi mynd yn brin yn y DU yn sgil defnydd dwys o'r tir.

Mae'r planhigion a'r bywyd adar yma wedi denu sylw naturiaethwyr ers dechrau'r 20fed ganrif. Mae'r gwlyptir a'r gorlifdir yn darparu cynefin hanfodol bwysig i rywogaethau sy'n peri pryder o ran cadwraeth, fel gwyddau talcen-wyn yr Ynys Las, llygod pengrwn y dŵr, dyfrgwn, llysywod pendoll y nant a llysywod



pendoll yr afon ac eogiaid. Mae'r safle hefyd yn gartref i amrywiaeth eang o adar sy'n bridio, gan gynnwys pibyddion coesgoch, giachod cyffredin, gylfinirod, gweilch y pysgod, corhwyaid, troellwyr bach, corhedyddion y coed, telorion y coed a thingochion.

Ym 1962 cafodd y tir ei gynnwys yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Llyn Llumonwy, gan ei wneud yn un o'r GNGau cyntaf yn yr Alban. Mae'n cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig. Er bod y tir wedi'i ddynodi'n bwysig o ran cadwraeth ers tro, gwelwyd ansawdd ei gynefin yn dirywio dros y blynyddoedd diwethaf i'r pwynt pan ystyriwyd ei fod mewn perygl. Yn 2011, pan gynigiwyd yr ystad ar werth ar y farchnad agored, aeth RSPB Yr Alban ati, gyda chymorth gan Scottish Natural Heritage ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Llyn Llumonwy a'r Trossachs, i gaffael y safle.

Fe wnaeth CGDG gefnogi prynu 173 hectar (427 erw) o'r ystad. Law yn llaw ag RSPB Yr Alban yn caffael Fferm High Wards gerllaw ar wahân, lle mae cynlluniau i greu canolfan fach i ymwelwyr, bydd hyn yn sicrhau dyfodol y tir fel safle o bwysigrwydd cenedlaethol ar gyfer gwarchodaeth natur. Gan ei fod yn agos at Greater Glasgow a lleoliad eiconig sy'n boblogaidd gyda thwristiaid ledled y byd, mae'n cynnig y cyfle i gynulleidfa fawr weld y gorau o dreftadaeth naturiol yr Alban.





## Coffr a stand Beckford

Ymddiriedolaeth Tŵr Beckford

**£148,000**

Y lluosfiliwnydd, y nofelydd a'r AS, y casglwr a'r noddwr, William Beckford (1760–1844) oedd un o ddynion mwyaf dylanwadol a dadleuol ei ddydd. Defnyddiodd ei etifeddiaeth helaeth i dreulio oes yn boddio'i frwdfrydedd am gelfyddyd a phensaernïaeth. Ym 1826 comisiynodd Dŵr Beckford (neu Lansdown) gan y pensaer Henry Goodridge i gadw ei gasgliad celf. Ar lethrau uchaf Caerfaddon, mae'r tŵr yn 37 metr (120 tr) o uchder ac mae'n ymasiad trawiadol o wreiddiol o arddull y Fila Eidalaidd ac arddull y Diwygiad Groegaidd.

Gellir gweld archwaeth eclectig enwog Beckford hefyd yn nyluniadau Goodridge ar gyfer cynllun dodrefnu cyfoethog y tŵr, a oedd yn cynnwys set o bedwar coffr a stand wedi'u hysbrydoli gan gabinetau priodas Ffrainc a'r Eidal yn yr 17eg ganrif a phensaernïaeth y Dadeni. Roedd yr ensembles hyn yn gweithredu fel cabinetau arddangos ac yn wreiddiol wedi'u gosod ym mhedwar cornel ystafell fwyaf trawiadol y tŵr, sef y Scarlet Drawing Room.

Gwasgarwyd dodrefn y tŵr, ynghyd â chasgliad celf Beckford, ar ôl ei farwolaeth. Mae ei enw fel beirniad chwaeth yn parhau, fodd bynnag, ac mae gan wrthrychau a oedd yn eiddo iddo, neu y bu ganddo ran yn eu dylunio, le arbennig mewn casgliadau amgueddfeydd modern. O'r pedwar ensemble coffr a stand, dim ond un sydd wedi goroesi'n gyfan hyd y gwyddwn. Pan werthwyd hwn mewn ocsiwn, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ohirio cais am drwydded allforio.

Gyda chefnogaeth gan CGDG, fe wnaeth Ymddiriedolaeth Tŵr Beckford, sy'n rhedeg Amgueddfa Beckford yn y tŵr, gipio'r cyfle unigryw hwn i brynu'r coffr a'i stand. Maent bellach yn cael eu harddangos yn gyhoeddus yn yr adeilad y cawsant eu dylunio'n wreiddiol ar ei gyfer, y mae ganddynt gysylltiadau hanesyddol mor gryf ag ef.

## Celc aur Eingl-Sacsonaidd

### Amgueddfeydd ac Orielau Leeds

**£95,000**

Wrth chwilio yn ardal Leeds ar ddau achlysur yn 2008 a 2009, fe wnaeth darganfyddwr metel ddatgladdu celc o arteffactau aur. Gelwir bellach yn Gelc Gorllewin Swydd Efrog, ac mae'n cynnwys pedair modrwy, rhan o dlws, hanner ingot a sidell gwerthyd, a chredir iddynt gael eu claddu yn ystod dechrau'r 11eg ganrif, cyfnod ffurfiannol yn hanes Prydain. Mae'n dangos amrywiaeth ryfeddol o sgiliau artistig a sgiliau gweithio metel.

Mae'r pedair modrwy yn oroesiadau hynod, yn cynnig enghreifftiau arbennig o hardd o grefftwriaeth Eingl-Sacsonaidd. Mae'r fodrwy fwyaf ysblennydd yn cynnwys befel mawr siâp losen, wedi'i osod â garned. Nid yw'n dangos llawer o ôl traul, ac mae'n debyg mai eitem rhodres oedd hi yn berchen i rywun tra phwysig. Mae modrwy arall, sydd bron mewn cyflwr perffaith eto, wedi'i haddurno â ffiligri a phelenni aur; ar y drydedd fodrwy ceir motiffau blodeuog a sŵomorffig mewn nielo (cymysgedd du sylffidau copr, arian a phlwm wedi'u defnyddio fel enosodiad). Mae ôl traul trwm ar un o'r motiffau hyn yn awgrymu bod y fodrwy hon wedi'i gwisgo'n rheolaidd. Mae'r bedwaredd fodrwy yn anarferol o fawr ac yn cynnwys befel wedi'i addurno â sbiralau a throadau cywrain o wifrau a gronynnau aur.

Roedd rhai darnau yn y celc yn amlwg wedi goroesi am gyfnod hir cyn cael eu claddu. Mae darn y tlws wedi'i ddyddio mor gynnar â'r 7fed ganrif; ymddengys fod y modrwyau yn rhychwantu'r 9fed ganrif i'r 11eg ganrif. Am lawer o'r cyfnod Eingl-Sacsonaidd, roedd ardal Leeds yn rhan o Ranbarth y Daniaid (rhanbarth gogleddol a dwyreiniol Lloegr o dan reolaeth Eingl-Sgandinafaidd). Gallai'r celc hwn fod wedi'i roi at ei gilydd at ddiben ailweithio, neu gall fod yn nwyddau wedi'u lladrata.

Gyda chyllid gan CGDG, roedd Amgueddfeydd ac Orielau Leeds wedi gallu prynu'r celc, sydd o bwysigrwydd rhanbarthol eithriadol yn ogystal â phwysigrwydd cenedlaethol. Mae wedi dod yn ganolbwynt Oriel Stori Leeds yn Amgueddfa Dinas Leeds, lle mae'n chwarae rhan bwysig yn darlunio hanes Eingl-Sacsonaidd a Llychlynnaidd y ddinas. Bydd y celc hefyd yn ffocws ar gyfer digwyddiadau yng Ngŵyl Archaeoleg Prydain yn 2012.

**Clocwedd o'r brig dde:** Modrwy ffiligri a gronynnog; sidell gwerthyd blwm; darn o dlws aur, gyda chelloedd cloisonné cywrain; un hanner ingot aur; modrwy ffiligri; modrwy bys nielo; modrwy cabosión fawr



2/ 1082/4


Victory June 22nd, 1804


My Lord

It is to redeem the solemn pledge I have made, never to omit upon any change of administration stating the just claim which I consider the battle of Copenhagen has to the reward of Medals as have been given for other Great Naval Victorys. I therefore enclose for Your Lordships perusal a statement of facts and the letters which passed between me and Lord St. Vincent upon that occasion, and when Your Lordship has leisure time I request your perusal of them, and I own I expect from You that Justice in recommen:ding us to The King which I have endeavourd but in vain to obtain from Your Predecessor, the determination to apply to Lord St. Vincent's successor

Viscount Melville

222





**Clocwedd o'r prif lun:** Llythyr at Melville gan y Llyngesydd Arglwydd Nelson, a ysgrifennwyd ar 22 Mehefin 1804 ar HMS *Victory*, yn gofyn am fedalau ar gyfer Brwydr Copenhagen

Dr Adam Smith yn ysgrifennu at Henry Dundas, Arglwydd Adfocad, ynglŷn â masnach rydd gydag Iwerddon (1 Tachwedd 1779)

John Croker yn cyfleu i Robert, ail Is-iarll Melville, ddymuniad yr Arglwydd Castlereagh i asesu'r gobeithion o gipio Bonaparte, a oedd ar ffrigad yn Rochefort (12 Gorffennaf 1815)

## Archif Is-ieirll Melville

### Cofnodion Cenedlaethol yr Alban

**£625,000**

Yn sgil Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) yn prynu papurau Melville ym mis Mawrth 2012, mae un o brif archifau gwleidyddol y DU mewn dwylo preifat wedi dod i berchenogaeth gyhoeddus. Mae cefnogaeth gan CGDG wedi achub yr archif rhag cael ei gwerthu ar y farchnad agored a'i gwasgaru.

Mae papurau Melville yn dogfennu datblygiad teulu Dundas ar ddiwedd y 18fed ganrif fel llinach frenhinol fwyaf pwerus yr Alban. Rhwng 1774 ac 1830 roedd y teulu'n dal swyddi allweddol yng ngwleidyddiaeth Prydain. Bu Henry Dundas, Is-iarll Melville y cyntaf, yn gwasanaethu fel Arglwydd Adfocad ar gyfer yr Alban, Ysgrifennydd Cartref, Llywydd y Bwrdd Rheoli ar gyfer India, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel a Phrif Arglwydd y Morlys; bu ei fab Robert, yr ail Is-iarll, yn gwasanaethu fel Llywydd Bwrdd India a Phrif Arglwydd y Morlys. O Ryfel Chwyldro America i geisio rheolaeth Brydeinig yn India a Rhyfeloedd Napoleon, roedd y tad a'r mab wrth galon materion cenedlaethol a rhyngwladol. Cafodd Richard, mab ieuengaf Robert, yrfa nodedig yn y llynges, a daeth yn Arglwydd Cyntaf yn y Morlys.

Mae'r archif yn cynnwys gohebiaeth hynod amrywiol, sy'n mynd â ni yn syth at graidd gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth ar bwynt critigol yn hanes Prydain. Mae ynddi lythyrau pwysig gan y rhan fwyaf o'r prif wleidyddion, milwyr a morwyr yn y cyfnod. Mae'r digwyddiadau a ddogfennir ynddynt yn cynnwys cwymp Arglwydd North (1778–82), Argyfwng y Rhaglywiaeth (1788–89), ymateb llywodraeth Pitt i aflonyddwch domestig a rhyfel tramor (1792–1801), diwygio llyngesol cyn Brwydr Trafalgar (1804–05), ac alltudiaeth Napoleon yn St Helena ar ôl Brwydr Waterloo (1815).

Mewn llythyr at Henry Dundas yn 1779, mae Adam Smith, yr Albanwr a oedd yn athronydd cymdeithasol ac arloeswr economi wleidyddol, yn annog manteision masnach rydd a drwg monopoli. Ym 1804, mae'r Llyngesydd Nelson yn adrodd i Brif Arglwydd y Morlys bryd hynny, yn cyfiawnhau ei wibiad i'r Aifft i chwilio am Lynges Ffrainc. Mae gohebiaeth arall yn delio â materion mor amrywiol â threchu'r rheolwr Indiaidd Tipu Sultan ac ymdrechion cynnar i reoleiddio cynhyrchu chwisgi yn yr Alban. At ei gilydd, mae'r archif yn llenwi 31 metr o silffoedd, gyda rhyw 11,000 o gofnodion catalog yn rhychwantu'r 17eg ganrif i'r 20fed ganrif. Mae bellach ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn ystafell ymchwil NRS a thrwy eu gwefan. Mae NRS yn cynllunio i ddatblygu rhaglenni addysg yn ymwneud â'r archif a threfnu bod delweddau yn ogystal â thestun ar gael ar-lein.



## Cist win arian yr Arglwydd Raby
### Amgueddfeydd ac Orielau Leeds
**£1,832,000**

Ym 1706, pan deithiodd y diplomydd Prydeinig Thomas Wentworth, trydydd Barwn Raby, i Berlin i ymgymryd â'i swydd fel Llysgennad Arbennig i lys Brenin Prwsia, aeth ag oerydd gwin arian anferthol gydag ef. Wedi'i gynllunio i ddal poteli gwin wedi'u pacio â rhew, roedd swyddogaeth ymarferol i wrthrychau o'r fath, ond roeddent yn symbolau statws amlwg hefyd, yn adlewyrchu cyfoeth a mawredd y gwesteiwr neu – yn achos diplomyddion – gwlad y gwesteiwr. Roedd Raby wedi gweld darnau tebyg o baraffernalia gwledda o'r blaen yn ystod ymweliad cynharach â phrifddinas Prwsia ym 1701, ac yn amlwg roedd yn benderfynol o beidio â chael ei drechu o ran mawredd ei blât llysgenhadol. Yn ei archeb am y plât, pennodd Raby 'ni all y Gist fod yn rhy fawr' a gofynnodd am i unrhyw arian a oedd yn weddill o'r eitemau llai gael ei ychwanegu at y dyraniad ar gyfer ei oerydd gwin ysblennydd.

Mae'r gist yn gampwaith crefft yr eurych Baróc, wedi'i gomisiynu o weithdy Philip Rollos yr Hynaf yn Llundain ym 1705. Gyda diamedr o 1.3 metr ac yn pwyso bron i 70 cilogram, hwn yw'r mwyaf o dri llestr tebyg yn y DU. Mae gweithio gydag un ddalen unigol o arian o'r maint hwn yn gofyn am sgil eithriadol ac anaml y ceisiwyd gwneud hynny o'r blaen. Mae'n bosibl fod cistiau anferthol o'r math hwn wedi gorfod cael eu gwneud mewn melinau copr yn hytrach nag yng ngweithdy'r eurych.

Fe wnaeth gwerthu cist yr Arglwydd Raby i brynwr tramor am £2.5miliwn ym mis Gorffennaf 2010 osod record mewn ocsiwn am blât arian o Loegr. O ystyried ei arwyddocâd i'r dreftadaeth genedlaethol, fodd bynnag, pennodd y Gweinidog dros Ddiwylliant waharddiad dros dro ar allforio. Rhoddodd hyn amser i Amgueddfeydd ac Orielau Leeds godi arian i gadw'r gwaith yn y DU. Roedd grant o £1.83miliwn gan CGDG yn hollbwysig i lwyddiant yr ymgyrch hwn. Mae'r gist bellach yn cael ei harddangos gydag enghreifftiau cain eraill o blât arian o'r un cyfnod yn Temple Newsam, nid ymhell o gartref yr Arglwydd Raby yn Swydd Efrog yng Nghastell Wentworth.

**Tudalen gyferbyn:** Manylion yn dangos un o ddolennau siâp llew yr oerydd gwin

**Y dudalen hon:** Cyfrannedd y gist yn ôl graddfa



## Adfer y Dornier Do 17

### Amgueddfa'r Awyrlu Brenhinol

**£165,681**

Wedi'i llysenwi'n 'the flying pencil' am ei dyluniad cain, roedd awyren injan-ddwbl Dornier Do 17 yn brif gynheiliad fflydoedd bomio Luftwaffe a ymddangosodd yn yr awyr yn ne Prydain yn haf 1940. Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, cafodd y rhan fwyaf o'r awyrennau Do 17 nad oeddent wedi'u saethu i lawr eu sgrapio. O'r amcangyfrif o 1,700 o awyrennau a gynhyrchwyd, credwyd nad oedd yr un ohonynt wedi goroesi.

Yn 2008, fodd bynnag, cynhaliodd Wessex Archaeology arolwg sonar o wely'r môr ar hyd arfordir Caint, a dangosodd hwn siâp awyren yn glir wedi'i chladdu o dan Dywodydd Goodwin. Roedd




**Isod:** Ffurfiant agos o awyrennau Dornier Do 17, y tynnwyd lluniau ohonynt ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd

amlinell bendant yr awyren yn awgrymu y gallai fod yn Do 17; fe wnaeth archwilio pellach gadarnhau mai dyna ydoedd. Mae CGDG yn ariannu gwaith achub brys o'r drylliad, sydd wedi dod yn darged hela swfeniriau'n anghyfreithlon, ac mae hefyd mewn perygl o symudiadau'r llanw. Pan fydd y gwaith anodd o'i hachub wedi'i gwblhau, bydd yr awyren yn cael ei throsglwyddo i Amgueddfa'r Awyrlu Brenhinol (RAF), Hendon, i'w chadw – ond ni fydd yn cael ei hadfer yn llawn, gan y byddai hyn yn niweidio ffabrig gwreiddiol y Dornier.

Mae ymchwil wedi nodi'n fanwl pa awyren ydyw yn union, sef awyren a hedfanai gyda Sgwadron Rhif 7, trydydd Grŵp, Asgell Fomio 3 yn ystod Brwydr Prydain. Fe'i saethwyd i lawr ar 26 Awst 1940 a gorfu iddi lanio ar Dywodydd Goodwin adeg llanw isel. Llwyddodd dau o'r criw o bedwar i oroesi. Wrth i'r llanw godi, gorchuddiwyd corff yr awyren yn gyflym gan dywodydd yn symud. Mae wedi'i chadw'n gyfan i raddau helaeth, a dim ond i'r caban peilot blaen a'r ffenestri arsylwi y gwnaed difrod mawr.

Ar ôl triniaeth i'w chadw, bydd y Dornier yn cael ei harddangos yn gyhoeddus yn Amgueddfa'r RAF. Fel arteffact gwreiddiol o'r rhyfel ac enghraifft unigryw o'r math hwn o awyren fomio ysgafn, bydd yn ychwanegu dimensiwn newydd pwerus at gasgliad yr amgueddfa'n ymwneud â Brwydr Prydain, a saif fel cofeb i'r rhai a gollodd eu bywydau ar y ddwy ochr yn ystod y gwrthdaro.



## Cylchigau gwydr lliw o'r 16eg ganrif
## Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich

**£93,000**

Mae'r cylchigau gwydr lliw rhagorol hyn yn gampweithiau miniatur byw baentiadau ar wydr yn Lloegr ar ddiwedd y canol oesoedd. Cawsant eu gwneud yn Norwich oddeutu 1500–25 ac maent yn darlunio Llafuriau'r Misoedd, thema boblogaidd yng nghelf ganoloesol Ewrop. Mae brenin yn eistedd wrth fwrdd llawn o fwyd (Rhagfyr/Ionawr); mae gwerinwyr yn tocio coed (Mawrth), yn cysgodi rhag storm genllysg (Ebrill, neu Dachwedd o bosibl) ac yn cynaeafu grawnwin (Medi).

Mae'r pedair cylchig yn oroesiadau eithriadol, heb fawr o ddifrod iddynt mewn 600 mlynedd. Maent yn rhan o set o 12 o gylchigau a wnaed mae'n debyg ar gyfer cartref y masnachwr a maer tair gwaith dinas Norwich, Thomas Pykerell (bu farw ym 1545) – tŷ sy'n dal i sefyll yn Rosemary Lane heddiw. Mae rhai o'r golygfeydd peintiedig yn atseinio traddodiadau lleol yn benodol. Hyd y 18fed ganrif o leiaf, byddai pasiant blynyddol o Lafuriau'r Misoedd yn cael ei lwyfannu yn Norwich, gyda Brenin y Nadolig yn llywyddu – y brenin yng nghylchig Rhagfyr/Ionawr o bosibl. Ymddengys fod y motiff o werinwr yn cysgodi rhag storm genllysg yn unigryw i gylch Norwich o'r Llafuriau.

Pan ddaeth chwech o'r cylchigau ar y farchnad yn 2011, fe wnaeth CGDG alluogi Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich i gaffael pedwar ohonynt; aeth y ddau arall i Amgueddfa Victoria ac Albert. O ystyried tarddiad a chysylltiadau lleol y cylchigau, mae Castell Norwich yn gartref priodol iawn iddynt. Bydd y cylchigau'n cael eu harddangos yn gyhoeddus ac yn chwarae rhan bwysig yn rhaglen ddysgu'r amgueddfa.









## Sylwadau'r rheolwyr

### Gwybodaeth gefndir

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu 'y Gronfa') ei mireinio a'i gweinyddu gan gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr CGDG, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Dir Genedlaethol fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan y llywodraeth i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998.

O dan Ddeddf 1993, daeth yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a glustnodir i'r dreftadaeth. Rhaid i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad yn ddosbarthwr cyllid y Loteri Genedlaethol. Mae Ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer y derbyniadau o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

### Prif weithgareddau

O dan adran 3 a 3a Deddf 1980, gall Ymddiriedolwyr wneud grantiau a benthyciadau allan o CGDG at ddiben cael, cynnal neu ddiogelu:

i) unrhyw dir, adeilad neu strwythur sydd, ym marn yr Ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, pensaernïol, archaeolegol neu wyddonol eithriadol;

ii) unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol;

iii) unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sy'n gasgliad neu grŵp sydd yn ei gyfanrwydd o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy.

Mae Adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd) yn ymestyn pwerau'r Ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a gynllunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1980 (fel y'i diwygiwyd), a Deddf 1997, gall yr Ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau sy'n anelu at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac anelu at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Mae'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio'r hawliau estynedig hyn yn bennaf mewn cysylltiad â CDL. Cred yr Ymddiriedolwyr fod gan CGDG rôl allweddol fel rhagfur canolog yn amddiffyniad y genedl o eitemau o bwysigrwydd eithriadol sydd mewn perygl. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir gan y llywodraeth, yn ogystal ag adnoddau o'i gronfa waddol, i gynnig cefnogaeth ariannol fel cronfa cyfle olaf ar gyfer caffael, diogelu a chynnal a chadw treftadaeth sydd mewn perygl o gael ei dinistrio neu ei cholli.

### Offerynnau Ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' (IFRS 7) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl a chwaraeodd offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod, yn creu neu'n newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gynnal ei weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg ar gyfer CGDG nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn bennaf berthnasol iddynt. Nid oes gan CGDG bwerau i fenthyg, ond gall fuddsoddi cyllid a ddeillir o gymorth grant. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ystyrir eu bod yn newid y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

*Risg hylifedd*

Ychydig iawn o incwm a dderbyniodd CGDG yn 2011–12 gan i gymorth grant barhau ar ei lefel symbolaidd, sef £1. Fodd bynnag, roedd gan CGDG falansau arian parod mawr a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol a defnyddiodd yr arian hwn i ariannu taliadau grant a chostau gweithredu. Yn ogystal, mae Ymddiriedolwyr yn cadw gwaddol ac mae ei fuddsoddiadau sylfaenol yng Nghronfa Aml-Asedau Elusen Schroder & Co. Limited yn cael eu masnachu'n eang. Mae Ymddiriedolwyr yn gallu hylifo cronfeydd yn ddyddiol – yn wir, tynnwyd £3miliwn allan o'r gronfa waddol yn ystod y flwyddyn i ariannu taliadau grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod ganddynt ddigon o adnoddau hylifol, ar ffurf eu balansau arian parod (gwerth £98,000 ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol) a'r gronfa waddol (gwerth £26.4miliwn ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol), i dalu'r holl ddyfarniadau grant £1.4miliwn sy'n ddyledus a

£43,000 o rwymedigaethau gweinyddol. Mae'r gwaddol wedi'i fuddsoddi'n bennaf mewn ymddiriedolaethau unedol sy'n hawdd eu marchnata – dyfynnir y prisiau'n ddyddiol yn y Financial Times. Mae CGDG yn monitro'i falansau arian yn ddyddiol ac yn cadw cyswllt rheolaidd â grantîon er mwyn canfod eu gofynion tebygol o ran tynnu arian i lawr. Cred yr Ymddiriedolwyr nad yw'r Gronfa mewn llawer o berygl o ran risgiau hylifedd sylweddol.

*Risg marchnad a risg cyfradd llog*

Caiff balansau arian parod, a ddefnyddir i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu, eu dal mewn amryw o gyfrifon banc, un â chyfradd sefydlog ac un â chyfradd newidiol. Roedd y cyfrif cyfradd newidiol yn cario cyfradd llog o 0.35% yn ystod y flwyddyn, ac fe'i defnyddiwyd i wneud taliadau grant ac ariannu ein gweinyddiad. Daliwyd symiau mwy o arian mewn cyfrifon cyfradd sefydlog tymor byr, gan dalu rhwng 1.62% a 1.8%, ac fe'u defnyddiwyd i ariannu'r cyfrif cyfradd newidiol yn ôl yr angen. Mae'r gostyngiad cyflym mewn cyfraddau llog marchnad a ddigwyddodd yn ystod 2008–09 wedi cael effaith ar adenillion, ond gan nad oes lle i gyfraddau ostwng ymhellach, mae'r risg yn fach. Y balansau arian parod diwedd blwyddyn, a ddelir gan y Gronfa yn y banc a chyda rheolwyr buddsoddi'u cronfa gwaddol, oedd £98,000. Cyfraddau llog o ddim oedd gan asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol CGDG.

Schroder & Co. Limited ('Schroders') a reolodd waddol CGDG ac fe'i buddsoddodd mewn ystod eang o asedau, o gyfranddaliadau masnachol i arian. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwerth marchnad y gwaddol, heb gynnwys ei elfen arian, yn £26.4miliwn. Mae enillion yn ddibynnol ar y marchnadoedd stoc byd-eang a pherfformiad cwmnïau sy'n gynwysedig yn y portffolio. Yn ystod y flwyddyn, yr adenilliad ar y gwaddol oedd 0.6%. Adolygwyd perfformiad buddsoddiadau yn barhaus gan yr Ymddiriedolwyr trwy eu Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'i banel buddsoddi, sy'n cynnwys tri aelod annibynnol â phrofiad helaeth yn y Ddinas yn Llundain.

Gan fod y balans arian a buddsoddiadau yn y gronfa waddol yn sylweddol uwch na gwerth cyfredol rhwymedigaethau presennol, ac am fod CGDG wedi'i hysbysu o lefel ei gymorth grant dros y tair blynedd nesaf, nid oes unrhyw ddadansoddiad sensitifrwydd manwl wedi'i gynnal. Pe bai gwerth ei gronfa waddol yn gostwng yn sylweddol yn yr hirdymor, byddai Ymddiriedolwyr yn gofyn am gynnydd yn eu cymorth grant tra'n lleihau eu cyllidebau dyfarnu grantiau yn y dyfodol. Pe bai'r cais hwn yn cael ei wrthod gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'u strategaeth dyfarnu grantiau hirdymor.

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau arian parod | | |
| – sterling ar gyfraddau llog cyfnewidiol | **16** | 106 |
| – sterling ar gymysgedd o gyfraddau sefydlog a chyfnewidiol | **0** | 0 |
| – sterling ar gyfraddau sefydlog | **82** | 6,626 |
| | **98** | 6,732 |

*Risg credyd*

Mae symiau derbyniadwy CGDG yn cynnwys symiau sy'n ddyledus gan eu rheolwyr buddsoddi a grantî yn bennaf. Nid yw, felly, yn agored i risg credyd sylweddol.

*Risgiau arian tramor*

Mae'r gronfa waddol wedi'i buddsoddi yng Nghronfa Aml-Asedau Elusen Schroder, a ddynodwyd mewn sterling. Mae'r Gronfa Aml-Asedau yn buddsoddi mewn nifer fawr o ymddiriedolaethau uned, llawer ohonynt yn cynnwys buddsoddiad mewn asedau wedi'u dynodi mewn arian cyfred eraill. Nid oes modd bod yn union fanwl ynglŷn â chyfradd y buddsoddiadau sydd wedi'u dynodi mewn arian tramor, ond oddeutu 27% yw hwnnw. Mae'r Gronfa Aml-Asedau yn lliniaru ei sefyllfa o ran bod yn agored i risgiau cyfraddau cyfnewid tramor trwy fuddsoddi mewn lledaenu ecwitïau, bondiau a nwyddau yn fyd-eang ac, felly, arian cyfred. Mae panel buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yn monitro buddsoddiad ein cronfa waddol, gan gynnwys y sefyllfa o ran bod yn agored i arian tramor yn y Gronfa Aml-Asedau. Mae holl asedau eraill CGDG wedi'u dynodi mewn sterling.

*Asedau ariannol yn ôl categori*

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | |
| Asedau anghyfredol | **26,398** | 29,310 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian | **98** | 6,732 |
| Symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | **25** | 34 |
| | **26,521** | 36,076 |

*Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori*

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | |
| – rhwymedigaethau ariannol eraill | | |
| • ymrwymiadau grant | **1,364** | 6,667 |
| • symiau taladwy gweithredol | **1** | 1 |
| • symiau taladwy eraill | **4** | 2 |
| • croniadau | **38** | 41 |
| | **1,407** | 6,711 |

*Gwerthoedd Teg*

Nodir isod gymhariaeth, yn ôl categori, o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol CGDG ar 31 Mawrth 2012.

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2012

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod[1] | 98 | 98 |
| Buddsoddiadau[2] | 24,080 | 26,398 |
| Symiau Derbyniadwy[3] | 25 | 25 |
| | 24,203 | 26,521 |

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2011

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod | 6,732 | 6,732 |
| Buddsoddiadau | 26,929 | 29,310 |
| Symiau Derbyniadwy | 34 | 34 |
| | 33,695 | 36,076 |

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2012

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant[4] | 1,364 | 1,364 |
| Symiau taladwy gweithredol[5] | 1 | 1 |
| Symiau taladwy eraill[5] | 4 | 4 |
| Croniadau[5] | 38 | 38 |
| | 1,407 | 1,407 |

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2011

| | Gwerth llyfr £'000 | Gwerth teg £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau grant | 6,667 | 6,667 |
| Symiau taladwy gweithredol | 1 | 1 |
| Symiau taladwy eraill | 2 | 2 |
| Croniadau | 41 | 41 |
| | 6,711 | 6,711 |

Sail prisiad teg:

1. Y ffigur yma yw gwerth buddsoddiadau marchnad arian tymor byr ac adneuon gyda banciau masnachol. Disgwylir bod gwerth llyfr yn gyfwerth â gwerth teg.
2. Gwneir buddsoddiadau mewn gwarantau hawdd eu marchnata a phennir eu gwerth ar lefel canol y farchnad ar ddiwedd busnes ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Lle bo'n berthnasol, cymerir y gyfradd gyfnewid gau rhwng yr arian cyfred sylfaen a sterling ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae'r gwerth llyfr yn adlewyrchu'r pris a dalwyd mewn gwirionedd mewn sterling ar ddyddiad cwblhau'r trafodiad.
3. Ni thybir bod darpariaeth ar gyfer drwgddyledion yn angenrheidiol. Nid yw'r un o'r dyledion yn rhai hirdymor ac felly nid oes unrhyw ffactor disgowntio wedi'i gymhwyso.
4. Nid oes unrhyw ffactor disgowntio wedi'i gymhwyso.
5. Mae'r holl symiau taladwy yn ddyledus o fewn termau contractiol arferol, 14–30 diwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng cost llyfr a gwerth teg.

*Rhwymedigaethau ariannol yn aeddfedu*

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | 1,407 | 6,711 |
| Mewn mwy na blwyddyn, ond llai na dwy flynedd | 0 | 0 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | 0 | 0 |
| Mewn mwy na phum mlynedd | 0 | 0 |
| | 1,407 | 6,711 |

**Datblygiadau'r dyfodol**

Bydd y cymorth grant ar gyfer 2012–13 yn £5miliwn, gyda £15miliwn pellach dros y ddwy flynedd ganlynol. O ganlyniad, mae Ymddiriedolwyr wedi pennu cyllideb o £5miliwn ar gyfer dyfarniadau yn 2012–13. Mae gwerth y gronfa waddol wedi disgyn yn y blynyddoedd diweddar gan fod lefel y dyfarniad wedi bod yn uwch na derbyniadau cymorth grant ac mae adenillion o'r farchnad stoc wedi bod yn wael. Mae Ymddiriedolwyr am anelu i ddychwelyd £5miliwn i'r gronfa waddol o'r cymorth grant yn 2013–14.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod cymorth grant blynyddol o £10miliwn ond yn fymryn o arian i alluogi CGDG i gyflawni'i dyletswyddau statudol. Felly, byddai cymorth grant lefel tymor canolig o £5miliwn y flwyddyn yn golygu'n anochel y gallai rhai eitemau o'n treftadaeth gael eu colli. Mae'r galw am gyllid yn parhau yn gryf a byddwn yn dadlau'r achos dros ddychwelyd i gyllideb o £10miliwn y flwyddyn.

**Ymgynghori â chyflogeion**

Mae natur gweithrediadau'r Gronfa yn golygu bod staff sy'n prosesu ceisiadau grant yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae staff yn ymwneud â gwerthuso a monitro prosiectau, ac yn ymweld ag ymgeiswyr gyda'r Ymddiriedolwyr. Mae llawer o aelodau staff yn mynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o feddwl am ddatblygiad y Gronfa a'i gweithrediadau. Yn ogystal, mae uwch reolwyr yn sicrhau – drwy grynodebau o gyfarfodydd y Bwrdd Rheoli yn y briff craidd misol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a lefel uchel o hygyrchedd personol – y gellir mynd i'r afael yn rhwydd â materion sy'n peri gofid i staff. Mae'n hanfodol y caiff yr holl staff y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Gronfa yn ogystal â chyflawni eu potensial eu hunain drwy ymgynghori a thrafod yn rheolaidd. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Staff yn bodoli. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob adran, ac yn trafod materion o ddiddordeb i staff, gyda chynrychiolwyr o'r rheolwyr. Mae'n cyfarfod naw gwaith y flwyddyn.

## Cyfle cyfartal
Fel cyflogwr, mae CGDG yn cadw at ddeddfwriaeth cyfle cyfartal. Nid yw'r Gronfa yn gwahaniaethu yn erbyn staff nac ymgeiswyr cymwys am swyddi gwag ar sail rhyw, statws priodasol, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, cred grefyddol, anabledd, oedran na chyfeiriadedd rhywiol. Cymerir pob cam posibl i sicrhau bod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg a bod penderfyniadau am recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol sy'n gysylltiedig â'r swydd yn unig. Nid yw CGDG yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Mae'r Gronfa'n croesawu ceisiadau swydd gan bobl ag anableddau, ac ar hyn o bryd mae oddeutu 6% (2010–11: 4%) o'n gweithlu yn bobl ag anableddau datganedig. Mae gofyn i'r holl staff gydweithredu i wneud i'r polisi hwn weithio'n effeithiol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Grŵp Gweithredu Anabledd y Staff wedi cyfarfod ddwywaith ac wedi cyflwyno'r cysyniad o wahodd elusennau dethol i fynychu a chyflwyno i'r staff. Yn 2011–12, gwahoddwyd cynrychiolwyr o Diabetes UK a Mind, ac ynghyd â hyfforddiant arall yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb, mae hyn wedi galluogi staff i gael yr hyder i ddatgan anabledd.

## Symiau sy'n daladwy
Mae CGDG yn cydymffurfio â'r safon lywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Chod Ymarfer Talu Gwell CBI, sef talu pob bil dilys ymhen 30 diwrnod. Yn 2011–12, oed cyfartalog yr anfonebau a dalwyd oedd wyth niwrnod gwaith (2010–11: 8 diwrnod). Talwyd dros 95% o anfonebau ymhen 30 diwrnod calendr (2010–11: 96%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb diwrnodau credydwyr – sef cymhareb y symiau masnach sy'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth pryniannau yn ystod y flwyddyn wedi'i fynegi yn nhermau diwrnodau. Ar 31 Mawrth 2012, y ffigur oedd 19 diwrnod (2010–11: 29 diwrnod).

## Rhwymedigaethau pensiwn
Mae'r Gronfa yn gwneud cyfraniadau at gynlluniau pensiwn staff. Heblaw am wneud y taliadau hyn, nid oes gan y Gronfa unrhyw rwymedigaethau pensiwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Nodiadau i'r Cyfrifon.

## Cofrestr buddiannau
Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â CGDG ac yn eithrio eu hunain o'r prosesau arfarnu, trafod a phenderfynu grantiau perthnasol CGDG.

Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau ymglymiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwr CGDG. Mae trefniadau cyfatebol i staff adrodd am fuddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

## Penodi archwilwyr
Mae Deddf 1980 yn darparu ar gyfer archwilio cyfrifon blynyddol CGDG gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau Loteri'r Ymddiriedolwyr.

## Rhanddeiliaid allweddol
Rhanddeiliad allweddol CGDG yw'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd
Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2012 hyd at ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu, y mae angen eu dwyn i sylw'r darllenydd. Awdurdodwyd y cyfrifon gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar 6 Gorffennaf 2012, sef y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## Dangosyddion perfformiad allweddol
Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y dylai CGDG ymdrechu i sicrhau perfformiad uchel yn ei weithgareddau. I'r perwyl hwn, mae tri dangosydd perfformiad yn eu cytundeb cyllido presennol gyda'r DCMS. Mae'r dangosyddion hyn yn cwmpasu'r agweddau pwysicaf ar wasanaethau cwsmeriaid – cyflymder prosesu cais am grant; cyflymder prosesu cais am daliad grant; a chyflymder cyhoeddi penderfyniadau ar ein gwefan.

| | Targed | 2011–12 | 2010–11 | 2009–10 | 2008–09 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amserau prosesu ceisiadau (misoedd) | | | | | |
| – ceisiadau brys | 3 | **1.3** | 1.1 | 1.1 | 0.8 |
| – ceisiadau heb fod yn rhai brys | 6 | **2.1** | 1.7 | 3.4 | 2.7 |
| Cyhoeddi penderfyniadau (diwrnodau gwaith) | | | | | |
| – rhoi penderfyniadau ar y wefan | 14 | **10** | 10 | 10 | 10 |
| Talu grantiau (diwrnodau gwaith) | | | | | |
| – ar ôl cais am daliad | 15 | **7** | 3 | 3 | 4 |

Bydd y dangosyddion a'r targedau uchod yn parhau i mewn i 2012–13.

### Data personol

Ni chafodd CGDG unrhyw ddigwyddiadau lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti ac nid yw wedi gwneud unrhyw adroddiad i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau, ac i sicrhau gwelliannau parhaus i'w systemau.

### Absenoldeb oherwydd salwch

Yn 2011–12, collwyd 1,579 o ddiwrnodau yn sgil 327 o achosion o salwch (2010–11: 2,199 o ddiwrnodau mewn 354 o achosion o salwch), sy'n cynrychioli 1.93% o'r holl ddiwrnodau gweithio, ac yn ganran isel iawn (2010–11: 2.56%).

### Perfformiad cynaliadwyedd

Mae'r Trysorlys yn pennu gofyniad ar holl gyrff y sector cyhoeddus i gynhyrchu adroddiadau cynaliadwyedd o 2011–12. Roedd 2010–11 yn 'rhediad ffug' ac o 1 Ebrill 2010, mae CGDG wedi cofnodi ei ôl-troed carbon o ran teithio busnes, gwastraff a gynhyrchwyd a'r defnydd o ynni. Fodd bynnag, 2010–11 oedd blwyddyn gyntaf casglu'r wybodaeth ac nid yw'n llinell sylfaen ddibynadwy; er enghraifft, ni wnaeth yr un o'n landlordiaid ddarparu ffigurau ar gyfer oriau cilowat o nwy na thrydan a ddefnyddiwyd, ac ni wnaethant ychwaith filio'n ddigon cyflym i ddarparu ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf, a olygodd y bu rhaid i ni ddefnyddio ffigurau 2009–10 ar gyfer y swyddfeydd hynny. Ar gyfer 2011–12 rydym wedi casglu oriau cilowat ar gyfer nwy a thrydan, ac mae gennym fwy o anfonebau am y cyfnod. 2011–12 felly yw'r llinell sylfaen ddibynadwy gyntaf i ni allu monitro tueddiadau yn ei herbyn.

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gweld fawr o bwynt dyrannu adroddiadau cynaliadwyedd rhwng eu gweithgareddau cymorth grant a'u gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri. O ganlyniad, mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu holl weithgareddau CGDG.

*Crynodeb o berfformiad*

Dim ond dros un o'r adeiladau y mae'n gweithio ynddo y mae gan CGDG reolaeth drosto, sef y pencadlys yn Llundain. Yn 2010–11 fe wnaethom osod boeleri newydd ar gyfer gwresogi yn lle'r boeleri nwy 25 mlwydd oed, yr oeryddion ar gyfer y system awyru, a gosod goleuadau yn cael eu rheoli gan synwyryddion sy'n sensitif i symudiadau a golau dydd. Ar ôl gwneud gwaith ailosod mor fawr, nid oes lle i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhellach yn yr un swyddfa a reolwn.

Yn y 10 adeilad arall yr ydym yn ddeiliaid ynddynt, rydym yn gwbl ddibynnol ar y landlord i wella perfformiad, ac mae hynny'n annhebygol o ddigwydd rhwng gwaith ailwampio mawr. Mae'r cyfle i wella ymhellach o ran allyriadau cwmpas 1 a 2 yn eithriadol o gyfyngedig felly.

Disgrifiwn yn rhywle arall yn yr adroddiad hwn y cynnydd yn y baich gwaith, sydd wedi arwain at gynnydd bach mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgil teithiau busnes.

| Maes | 2011–12 |
|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 teithiau busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol ($tCO_2e$) | **747.1** |
| Ynni'r ystad | |
| – defnyddio (kWh) | **1.3miliwn** |
| – gwariant | **£384,532** |
| Gwastraff yr ystad | |
| – defnyddio (tunelli metrig) | **18.9** |
| – gwariant | **£6,640** |
| Dŵr yr ystad | |
| – defnyddio ($m^3$) | **5,223** |
| – gwariant | **£18,786** |

Normaleiddiwyd gan staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gyflogwyd yn ystod y cyfnod.

| Maes fesul FTE | 2011–12 | 2010–11 |
|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cwmpasau 1, 2 a 3 teithiau busnes yn cynnwys teithio awyr/rheilffordd rhyngwladol ($tCO_2e$) | **3.3** | 2.5 |
| Ynni'r ystad | | |
| – defnyddio (kWh) | **5,701** | 5,686 |
| – gwariant | **£1,679** | £1,530 |
| Gwastraff yr ystad | | |
| – defnyddio (tunelli metrig) | **0.1** | 0.2 |
| – gwariant | **£29** | £34 |
| Dŵr yr ystad | | |
| – defnyddio ($m^3$) | **23** | 63 |
| – gwariant | **£82** | £81 |

*Allyriadau nwyon tŷ gwydr*

Mae allyriadau ynni uniongyrchol yn ymwneud â nwy a ddefnyddiwyd mewn boeleri a weithredir gan CGDG ac allyriadau a gynhyrchir drwy ein defnydd o systemau awyru yn ein pencadlys yn Llundain. Caiff gwybodaeth am ddefnydd o nwy mewn oriau cilowat ei deillio o'n cyflenwyr.

Caiff oriau cilowat eu trosi yn dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactor trosi a ddarparwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA).

Cyfrifwyd y carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer allyriadau o'n oeryddion awyru hefyd gan ddefnyddio'r fformwla a nodir yn arweiniad DEFRA (*archive.defra.gov.uk/environment/business/reporting/pdf/110819-guidelines-ghg-conversion-factors.xls.*)

Mae adnewyddu'r boeleri nwy yn ein swyddfa yn Llundain wedi lleihau defnydd ac mae'r system awyru wedi cynhyrchu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan na fu unrhyw waredu oeryddion yn 2011–12.

Mae allyriadau ynni anuniongyrchol yn ymwneud â thrydan a gynhyrchwyd gan sefydliadau eraill ac a werthwyd i ni, a gwres a brynwn gan landlordiaid i'n swyddfeydd gwledig a rhanbarthol. Ceir gwybodaeth am ddefnydd mewn oriau cilowat gan ein landlordiaid. Caiff oriau cilowat eu trosi yn dunelli metrig o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio ffactor trosi a ddarparwyd gan DEFRA. Rydym yn dibynnu ar ein landlordiaid i wella perfformiad.

Gwneir y rhan fwyaf o'n teithio ar y rheilffordd, ac mae ein prif gyflenwr tocynnau yn rhoi manylion i ni am allyriadau'r carbon deuocsid cyfwerth ar gyfer yr holl deithiau a wnaed. Yn yr un modd, mae ein prif gyflenwyr llogi ceir yn rhoi data i ni am yr allyriadau hyn. Mae'n ofynnol i'r staff ddiweddaru taenlenni adrannau â gwybodaeth am yr holl deithiau eraill. Gosodwyd y gorchwyl i benaethiaid adran sicrhau bod eu staff yn cofnodi manylion eu teithiau i gyd.

Caiff y wybodaeth a gesglir ei throsi yn dunelli o garbon deuocsid cyfwerth gan ddefnyddio tablau o ffactorau trosi a ddarparwyd gan DEFRA. Yn sgil beichiau gwaith cynyddol daeth cynnydd anochel mewn teithiau busnes, gyda chynnydd o 12 o dunelli metrig yn ystod 2010–11.

*Gwastraff*

Nid yw CGDG yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus. Nid oes modd dadansoddi ymhellach yr hyn a ddigwyddodd i'r gwastraff a gynhyrchwyd gennym. Caiff yr holl wastraff nad yw'n cael ei ailgylchu ei gasglu gan gynghorau sy'n lleol i'r swyddfeydd y gweithredwn ynddynt. Nid ydym yn gwybod beth maent yn ei wneud â'r gwastraff hwnnw, ond rydym wedi cymryd bod y cyfan yn mynd i'w dirlenwi. Dim ond Cyngor Kensington a Chelsea sy'n ein hanfonebu ar wahân. Hwn yw'r gwariant a ddatgelir yn y tabl uchod.

Mae ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol yn ddigon bach i bwyso'r holl wastraff a gynhyrchwyd ganddynt, sydd ar gyfartaledd ychydig dros 1 dunnell fetrig yr un y flwyddyn. Nid oes unrhyw ffordd ddibynadwy o fesur y gwastraff mwy o lawer a gesglir gan Gyngor Kensington a Chelsea yn Llundain, ac nid oedd ein hamcangyfrif gwreiddiol o ryw 9.4 o dunelli metrig yn seiliedig ar samplu pwysau detholiad o fagiau sbwriel yn gyson â'r profiad gyda gweddill y wlad, lle mae nifer debyg o staff ond yn cynhyrchu 4.5 o dunelli metrig o wastraff. Rydym felly wedi cyfrifo maint y gwastraff a gynhyrchwyd fesul person ar sail pwysau gwirioneddol yn ein swyddfeydd gwledig a rhanbarthol, ac wedi cymhwyso hynny i staff yn Llundain. Byddai'n gymorth pe bai cynghorau yn mynd ati'n rheolaidd i bwyso'r gwastraff maent yn ei gasglu o swyddfeydd.

*Defnydd o adnoddau*

Caiff gwybodaeth am ddefnydd o ddŵr ei deillio o anfonebau'r cyflenwr ar gyfer ein prif swyddfa yn Llundain. Ar gyfer y swyddfeydd eraill y gweithiwn ynddynt, mae landlordiaid yn darparu gwybodaeth am nifer y metrau ciwbig a ddefnyddir ar sail y gofod sydd gennym, yn hytrach na thrwy fesuryddion unigol.

Mae adnewyddu'r tyrau oeri dŵr ar gyfer y system awyru yn ein swyddfa yn Llundain wedi lleihau ein defnydd o ddŵr.

**Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG**

*Cadeirydd*

Y Fonesig Jenny Abramsky [2]

*Ymddiriedolwyr*

Kim Evans [2]
Yinnon Ezra [1]
Kathy Gee
Doug Hulyer [1]
Dan Clayton Jones hyd nes 11 Ionawr 2012
Hilary Lade [2]
Alison McLean [1]
Richard Morris o 16 Mai 2011
Atul Patel [2] o 16 Mai 2011
Seona Reid o 1 Ebrill 2011
Ronnie Spence [1]
Virginia Tandy
Richard Wilkin [2] hyd nes 11 Ionawr 2012
Manon Williams o 12 Ionawr 2012
Christopher Woodward

*Prif Weithredwr*

Carole Souter [2]

1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
2 Aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (sydd hefyd yn cynnwys tâl)

**Y Fonesig Jenny Abramsky**
Cadeirydd

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

4 Gorffennaf 2012

## Adolygiad ariannol

Yn 2011–12, derbyniom 10 o geisiadau, ac ystyriwyd bob un ohonynt gan yr Ymddiriedolwyr. Roedd pob un o'r ceisiadau hyn yn bodloni ein meini prawf felly fe'u cefnogwyd gyda grantiau gwerth cyfanswm o £4,988,944.

Cafodd un o'r prosiectau a gefnogwyd ei drechu mewn ocsiwn. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae hyn yn dangos mater sy'n digwydd dro ar ôl tro gydag eitemau i'w gwerthu mewn ocsiwn, lle mae prisiau'n mynd yn uwch na'r amcangyfrifon a bennwyd yn aml. Yn yr achos hwn, roedd y pris terfynol dan y morthwyl yn uwch na phob disgwyl, ac yn anffodus, prynwyd yr eitem gan sefydliad y tu allan i'r DU.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd Llyfrgell Bodley yn prynu llawysgrif brin o nofel anorffenedig gan Jane Austen. Llawysgrif *The Watsons* yw'r drafft hysbys cynharaf o nofel gan Austen. Er bod trawsgrifiad o *The Watsons* ar gael ar-lein, dim ond un astudiaeth a wnaed o'r llawysgrif ei hun, ym 1924. Mae'r llawysgrif yn arbennig o bwysig o ran ymchwil academaidd, ac mae hefyd ar gael yn awr i'r cyhoedd ei gweld ar y wefan *Treasures of the Bodleian*. Mae'r llyfrgell yn bwriadu defnyddio *The Watsons* mewn oriel arddangos barhaol newydd yn 2015.

Gofynnwyd i CGDG gefnogi dwy eitem a gafodd eu hatal dros dro rhag cael eu hallforio o'r DU yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Adolygu ar Allforio Gweithiau Celf – sef coffr a stand William Beckford a chist win Arglwydd Raby. Caffaelwyd coffr a stand Beckford gan Ymddiriedolaeth Tŵr Beckford ac mae'n ymuno ag eitemau eraill o gelfi Beckford sy'n cael eu cadw yn yr amgueddfa ar loriau uchaf y tŵr yng Nghaerfaddon. Er bod cysylltiad agos gan y gist â Chastell Wentworth, nid oeddynt mewn sefyllfa i'w phrynu. Camodd Amgueddfeydd ac Orielau Leeds i'r adwy i brynu'r eitem ar gyfer Temple Newsam, gyda chynlluniau ar gyfer gweithgareddau ar y cyd gyda Chastell Wentworth. Mae'r grantiau a ddyfarnwyd i'r eitemau hyn a gafodd eu rhwystro rhag eu hallforio yn dangos rôl barhaus allweddol CGDG yn tanategu mecanweithiau eraill y Llywodraeth ar gyfer sicrhau eiddo diwylliannol sydd mewn perygl o fod yn golled i'r genedl.

Fe wnaeth Amgueddfeydd ac Orielau Leeds gaffael celc o aur Eingl-Sacsonaidd hefyd, yn cynnwys saith darn i gyd – pedair modrwy, hanner ingot aur, rhan o dlws aur a sidell gwerthyd blwm. Y caffaeliad hwn oedd ein hunig ddyfarniad eleni ar gyfer darganfyddiad wedi'i ddatgan yn drysor gan y Pwyllgor Prisio Trysor. Mae prinder treftadaeth gludadwy o'r cyfnod Eingl-Sacsonaidd, felly mae'r potensial gan unrhyw ddarganfyddiad archaeolegol i ehangu ein gwybodaeth am y cyfnod. Mae Amgueddfa Dinas Leeds yn arddangos y celc yn eu horiel Oriel Stori Leeds fel gwrthrychau allweddol o hanes Eingl-Sacsonaidd a Llychlynnaidd y ddinas.

Llwyddodd Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich i gaffael pedair cylchig gwydr lliw o'r 16eg ganrif yn darlunio motiff canoloesol poblogaidd – Llafuriau'r Misoedd. Norwich oedd un o'r canolfannau canoloesol ar gyfer cynhyrchu gwydr lliw yn Lloegr, a chredir bod y cylchigau wedi'u gwneud ar gyfer cyn faer. Mae ein dyfarniad yn galluogi dychwelyd y gwrthrychau dymunol hyn i'r ddinas a'u harddangos yng Ngorthwr y Castell. Maent yn rhan o drywydd 'Prif Wrthrychau' y Gorthwr ac maent ar wefannau Castell Norwich ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Norfolk.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae CGDG wedi cefnogi caffael archifau teuluol pwysig, ac yn yr achos hwn prynu archif Is-ieirll Melville gan Gofnodion Cenedlaethol yr Alban. Gan ganolbwyntio ar yrfaoedd Is-iarll cyntaf ac ail Is-iarll Melville, mae'r archif yn olrhain Rhyfel Chwyldro America, y frwydr yn erbyn Napoleon, a hanes ymerodrol Prydain yn India a mannau eraill. Heb ein cefnogaeth ariannol byddai'r archif wedi'i gwahanu, ei gwerthu ar y farchnad agored, a'i cholli felly fel cofnod hanesyddol hollbwysig.

Gan i CGDG gael ei sefydlu er coffâd am y rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau dros y wlad hon, rydym wedi cefnogi dau gaffaeliad eleni sy'n deyrnged addas. Y cyntaf oedd i Amgueddfa'r RAF i helpu adfer awyren fomio Dornier Do 17 o Dywodydd Goodwin oddi ar arfordir Caint. Yr awyren yw'r olaf o'i math i oroesi a chwaraeodd ran ym Mrwydr Prydain. Roedd wedi'i gorchuddio dan dywod yn flaenorol, ond daeth i'r golwg, ac roedd mewn perygl o symudiadau'r llif a deifwyr yn mynd ag eitemau'n anghyfreithlon. Bydd Amgueddfa'r RAF yn codi'r awyren pan fydd y sefyllfa ar ei gorau i'w chodi. Maent yn bwriadu ei harddangos mewn cyflwr anadferedig ochr yn ochr â drylliad anadferedig o Hawker Hurricane yn Neuadd Brwydr Prydain ar eu safle yn Hendon, fel teyrnged i golli bywyd ar ddwy ochr y gwrthdaro.

Roedd y Bwrdd yn hynod falch hefyd o gefnogi caffael Yr Ysgwrn yn Eryri. Hwn oedd cartref y bardd o Gymru, Hedd Wyn, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a gafodd ei ladd yn drasig ym Mrwydr Passchendaele. Mae'r caffaeliad yn dangos sut y mae CGDG yn gweithio mewn partneriaeth, yn yr achos hwn gyda Cadw a CyMAL yng Nghymru, i ddiogelu a chynnal mynediad cyhoeddus i dreftadaeth. Mae'r eiddo wedi'i gadw fel ag yr oedd yn ystod bywyd y bardd, yn cynnwys y cadeiriau barddol a enillodd am ei farddoniaeth.

Mae rhestr lawn o'r holl grantiau a ddyfarnwyd fel a ganlyn:

| Caffaeliad | Ymgeisydd | Grant |
|---|---|---|
| Cist win arian yr Arglwydd Raby | Amgueddfeydd ac Orielau Leeds | £1,832,000 |
| Adfer awyren Dornier Do 17 | Amgueddfa'r Awyrlu Brenhinol | £165,681 |
| Coffr a stand Beckford | Ymddiriedolaeth Tŵr Beckford | £148,000 |
| *The Watsons* gan Jane Austen | Llyfrgell Bodley | £894,700 |
| Celc aur Eingl-Sacsonaidd | Amgueddfeydd ac Orielau Leeds | £95,000 |
| Rhan o Ystad Wards | RSPB Yr Alban | £172,000 |
| Cylchigau gwydr lliw o'r 16eg ganrif | Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich | £93,000 |
| Cadw drws agored – cartref Hedd Wyn | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £350,423 |
| *Young Men's Magazine** Charlotte Brontë | Cymdeithas Brontë | £613,140 |
| Archif Is-ieirll Melville | Cofnodion Cenedlaethol yr Alban | £625,000 |
| **Cyfanswm grantiau** | | **£4,988,944** |

* Gwnaed cynnig uwch yn yr ocsiwn; ni hawliwyd y grant

Yn yr Alban fe wnaethom helpu'r RSPB i brynu 173 hectar o orlifdir ar lan dde-ddwyreiniol Llyn Llumonwy. Mae'r tir rhwng Llyn Llumonwy a Pharc Cenedlaethol Trossachs ac mae'n rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol. Bydd ein grant yn helpu'r Gymdeithas i ddiogelu, cadw a rheoli'r ardal gwlyptir hon. Mae'r tir yn darparu amrywiaeth o gynefinoedd – yn cynnwys coetir derw aeddfed, coetir prysgwydd helyg a bedw, amrywiaeth o gorsydd, ffeniau a gwlyptir arall, glaswelltir sych a dŵr agored – gan ei wneud yn bwysig ar gyfer casgliad cyfoethog ac amrywiol o blanhigion prin a bywyd gwyllt.

Mae CGDG yn cynnal cronfa waddol a ostyngodd £2.9miliwn mewn gwerth yn ystod y flwyddyn, o £29.3miliwn i £26.4miliwn. Er bod gwelliannau bach mewn prisiau ecwiti'r byd yn ystod y flwyddyn, tynnodd yr Ymddiriedolwyr £3miliwn net o'r gronfa. Roedd perfformiad gwaelodol y gronfa waddol yn adenilliad o 0.6%. Nod hirdymor y gronfa waddol yw twf cyfalaf ac nid incwm. Felly, roedd incwm o'r gronfa yn gyfyngedig i'r elw ar werthu buddsoddiadau i ariannu'r un achos o dynnu arian i lawr yn y flwyddyn. Cafodd incwm yn y flwyddyn flaenorol ei chwyddo'n artiffisial yn sgil gwerthu ein holl fuddsoddiadau wrth i ni newid rheolwr buddsoddi.

Gostyngodd balansau arian parod yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd gan CGDG lawer o arian parod a hynny'n bennaf yn sgil ein bod yn barod i wneud taliad grant sylweddol ar ddechrau mis Ebrill 2011. Derbyniom gymorth grant o £1 yn ystod y flwyddyn ac roedd Ymddiriedolwyr yn wynebu'r penderfyniad p'un ai i beidio â gwneud unrhyw ddyfarniadau grant neu i ddefnyddio'r gronfa waddol. Dewisodd Ymddiriedolwyr yr ail opsiwn am fod treftadaeth y DU yn parhau i fod angen cefnogaeth sylweddol. Golygai'r gostyngiad mewn balansau arian parod a lefel isel barhaus cyfraddau llog yn yr economi fod incwm llog wedi disgyn yn fawr.

Roedd y dyfarniadau grant yn ystod y flwyddyn bron yn £5miliwn o gymharu â £12.7miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Golygai'r cymorth grant isaf posibl a'r adenillion siomedig o'r gronfa waddol fod y cronfeydd a oedd ar gael i Ymddiriedolwyr yn anochel yn is. Derbyniodd Ymddiriedolwyr gymorth grant o £5miliwn ym mis Ebrill 2012, a gobeithiant ddyfarnu'r swm hwnnw i gyd yn 2012–13 ar ben £1.36miliwn o ymrwymiadau sy'n ddyledus o 2011–12. Mae'r Gronfa yn monitro ei llif arian parod yn ofalus er mwyn osgoi gorfod tynnu arian i lawr o'r gronfa waddol am fod cost anochel ynghlwm â hyn o ran llai o adenillion.

Mae gan yr Ymddiriedolwyr darged tymor hir ar gyfer gwerth y gronfa waddol, sef iddi fod gwerth £10miliwn ar brisiau 1980. Mae tynnu arian i lawr yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd ag adenillion gwael o'r farchnad stoc, wedi golygu bod y gronfa waddol £11.3miliwn islaw ei tharged. Mae'r Ymddiriedolwyr yn bwriadu ailgyflenwi'r gronfa allan o gymorth grant blwyddyn ddiweddarach pe na bai adenillion buddsoddi'n clirio'r diffyg.

Gostyngodd y costau gweithredu eto o £120,000 i £102,000. Prif achos y gostyngiad hwn yw'r newid yn y rheolwr buddsoddi yn ystod 2011–12. Gan fod rhai o gostau gweinyddu'r Gronfa'n ymwneud â'r math o gais am grant a dderbyniwn, mae'n amhosibl datgan y bydd lefel isel y costau gweithredu yr un

fath ym mlynyddoedd y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn falch o nodi fod y lefel yn 2011–12 34% yn is na lefel 2009–10.

Ym mis Mawrth 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) ymrwymiad i symud i mewn i'r rhan fwyaf o'r llawr cyntaf yn Holbein Place, Llundain, ac ar 24 Mai 2011 llofnododd isbrydles. Codwyd rhent ar CCC o fis Mai 2011. Mae hyn wedi cael effaith fuddiol fach ar gostau gweithredu CGDG.

Derbyniwyd rhodd yn ystod y flwyddyn gan ystad Angela Minchin. Dymuna'r Ymddiriedolwyr nodi'u diolchgarwch.

Paratowyd y cyfrifon ar sail weithredol fel y mae cyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynnu. Y rheswm am hyn yw bod asedau wedi bod yn sylweddol uwch na'r rhwymedigaethau ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, ac am fod yr Ymddiriedolwyr wedi gosod cyllideb dyfarnu grantiau ar gyfer 2012–13 na ddisgwylir iddi newid y sefyllfa honno.

## Adroddiad tâl

### Tâl y Cadeirydd a'r Ymddiriedolwyr

Roedd hawl gan bob Ymddiriedolwr gael cyflog blynyddol am yr amser a dreuliwyd ar weithgareddau CGDG. Yn ogystal, fe wnaeth CGDG ad-dalu costau teithio rhai Ymddiriedolwyr o'u cartrefi i'w swyddfa waith yn Llundain, Caeredin, Caerdydd neu Belfast. Talodd y Gronfa'r rhwymedigaeth dreth ar y costau hyn.

Mae tâl yr Ymddiriedolwyr hynny a gafodd eu talu, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth ar hynny, yn cael ei rannu i'r bandiau yn y tabl isod.

Mae gan bob Ymddiriedolwr benodiad tair blynedd, y gellir ei adnewyddu am ail dymor (mae gan Ronnie Spence estyniad 18 mis i'w gontract tair blynedd). Fe'u penodir gan y Prif Weinidog. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gan y Gronfa at gynllun pensiwn ar ran yr Ymddiriedolwyr. Dyrannwyd holl dâl yr Ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar sail 1%: 99%. Cyfanswm tâl yr Ymddiriedolwyr yn 2011–12 oedd £205,235 (2010–11: £182,721). Caiff tâl a chontractau'r Ymddiriedolwyr eu trafod a'u gosod gan y DCMS. Nid yw eu contractau yn cynnwys unrhyw gymalau bonws. Ni roddwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau ac ni thalwyd unrhyw elfennau nad yw'n arian parod i'r Ymddiriedolwyr na'r cyfarwyddwyr.

### Gwybodaeth archwiliedig

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Y Fonesig Jenny Abramsky Cadeirydd | **40–45** | 40–45 |
| Kim Evans | **5–10** | 5–10 |
| Yinnon Ezra | **10–15** | 0–5 |
| Kathy Gee | **10–15** | 5–10 |
| Doug Hulyer | **5–10** | 10–15 |
| Tristram Hunt hyd nes 6 Ebrill 2010 | **0** | 0 |
| Dan Clayton Jones hyd nes 11 Ionawr 2012 | **15–20** | 20–25 |
| Hilary Lade | **10–15** | 10–15 |
| Brian Lang hyd nes 20 Mawrth 2011 | **0** | 20–25 |
| Alison McLean | **5–10** | 5–10 |
| Richard Morris o 16 Mai 2011 | **5–10** | 0 |
| Atul Patel o 16 Mai 2011 | **5–10** | 0 |
| Seona Reid o 1 Ebrill 2011 | **20–25** | 0 |
| Matthew Saunders hyd nes 15 Mawrth 2011 | **0** | 5–10 |
| Ronnie Spence | **20–25** | 20–25 |
| Virginia Tandy | **10–15** | 0–5 |
| Richard Wilkin hyd nes 11 Ionawr 2012 | **5–10** | 5–10 |
| Manon Williams o 12 Ionawr 2012 | **0–5** | 0 |
| Christopher Woodward | **5–10** | 5–10 |

## Tâl cyflogeion (Gwybodaeth archwiliedig)

Roedd tâl y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | **Cyflog 2011–12 £'000** | Cyflog 2010–11 £'000 | **Bonws 2011–12 £'000** | Bonws 2010–11 £'000 | Cynnydd real mewn pensiwn a chyfan-daliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed a chyfan-daliad £'000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) ar 31/3/12 £'000 | CETV ar 31/3/11 £'000** | Cynnydd real yn CETV wedi'i ariannu gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Carole Souter** Prif Weithredwr | **130 ¡ 135** | 130 ¡ 135 | **0 ¡ 5#** | 0 ¡ 5# | 0 ¡ -2.5 a -2.5 ¡ -5 o gyfan-daliad | 50 ¡ 55 a 160 ¡ 165 o gyfan-daliad | 1,050 | 987 | -23 |
| **Robert Bewley** Cyfarwyddwr Gweithrediadau | **90 ¡ 95** | 90 ¡ 95 | **0 ¡ 5** | 5 ¡ 10 | 0 ¡ -2.5 a 0 ¡ -2.5 o gyfan-daliad | 30 ¡ 35 a 90 ¡ 95 o gyfan-daliad | 627 | 587 | -10 |
| **Judith Cligman** Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Busnes | **90 ¡ 95** | 90 ¡ 95 | **0 ¡ 5** | 0 ¡ 5 | 0 ¡ -2.5 a 0 ¡ -2.5 o gyfan-daliad | 30 ¡ 35 a 90 ¡ 95 o gyfan-daliad | 570 | 534 | -9 |
| **Steve Willis** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | **100 ¡ 105** | 100 ¡ 105 | **0 ¡ 5** | 5 ¡ 10 | 0 ¡ -2.5 a -2.5 ¡ -5 o gyfan-daliad | 50 ¡ 55 a 155 ¡ 160 o gyfan-daliad | 1,187 | 1,124 | -33 |

** Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rheiny a ddyfynnwyd yng nghyfrifon y llynedd. Cafodd y ffactorau acitwaraidd a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian eu newid yn 2011–12. Mae'r CETVs ar 31/3/2011 a 31/3/12 wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb.
# Ildiodd Carole Souter ei hawl i fonws cyfarwyddwr yn 2011–12 a 2010–11.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd 60, neu ar unwaith os bydd yn peidio â bod yn aelod gweithgar o'r cynllun os yw eisoes yn 60. Yr oed pensiwn yw 60 i aelodau classic, premium a classic plus, a 65 i aelodau Nuvos.

Mae bonysau sy'n daladwy i uwch reolwyr yn cael eu datgelu ar wahân yn unol â Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 287 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Tachwedd 2010.

*Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian*

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd y budd-daliadau cynllun pensiwn a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y budd-daliadau a brisiwyd yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu budd-daliadau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fudd-daliadau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd y budd-daliadau pensiwn yn cael eu tynnu.

*Cynnydd real mewn CETV*

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisiad marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob uwch gyflogai gontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Dyrannwyd eu costau rhwng CDL a CGDG ar sail 99%: 1% (2010–11: 99%: 1%). Mae tâl uwch reolwyr yn gysylltiedig â pherfformiad. Mae'r swm yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn amcanion unigol a chyfraniad

cyffredinol at strategaeth a nodau corfforaethol. Gosodir amcanion unigol i'r Prif Weithredwr gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, ac mae'r Prif Weithredwr yn ei thro'n cytuno amcanion personol â'r cyfarwyddwyr swyddogaeth. Mae amcanion yn adlewyrchu nodau strategol a gweithredol y Gronfa a'r cyfraniad a ddisgwylir gan bob uwch reolwr unigol i gyrraedd y nodau. Mae gan y Gronfa system rheoli perfformiad ac mae perfformiad yn cael ei adolygu yn unol â hyn. Caiff perfformiad ei adolygu bob blwyddyn ym mis Mawrth/Ebrill a'i ddosbarthu ar raddfa o bedair gwahanol lefel cyflawniad. Mae cynllun bonws ar gyfer y cyfarwyddwyr sy'n ystyried barn y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (nodir aelodaeth y pwyllgor ar dudalen 25) am gyfraniad yr unigolyn tuag at lwyddiant ehangach y sefydliad, gyda chyfeiriad penodol at y ffordd y mae'n rheoli ei adran ei hun a'i effaith ar feysydd eraill; effaith yr unigolyn ar yr Ymddiriedolwyr a'u heffeithiolrwydd; ac unrhyw gyfraniad neu gyflawniad eithriadol yn ystod y flwyddyn na chafodd ei adlewyrchu yn yr amcanion allweddol ar gyfer y flwyddyn. Disgwylir i'r polisi hwn barhau yn y dyfodol. Penodir uwch reolwyr ar gontractau penagored gyda chyfnodau rhybudd heb fod yn fwy na chwe mis. Pe byddai angen ystyried taliadau terfynu, byddai'r Gronfa yn cadw'n llawn at reolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan y Trysorlys neu'r DCMS.

*Cymhareb tâl*

Un o ganlyniadau Adolygiad Tâl Teg diweddar Hutton yw ei bod yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf a thâl canolrif ein gweithlu.

Band tâl y cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf yn 2011–12 oedd £130,000 i £135,000. Roedd hwn bum gwaith tâl canolrif y gweithlu, sef £26,372. Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Gan mai hon oedd y flwyddyn gyntaf yr oedd yn ofynnol i ni gynhyrchu'r wybodaeth hon, nid oes unrhyw ddata cymharol. Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw reswm i gredu y bydd y gymhareb wedi mynd yn fwy yn ystod y flwyddyn gan fod cyflog pob aelod o staff sy'n ennill dros £21,000 wedi'i rewi am yr ail flwyddyn, ac mae trosiant staff yn isel.

Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad, buddion mewn da yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau. Er mwyn cyfrifo'r tâl canolrif rydym wedi gorfod grosio cyflog staff rhan-amser a phennu cyflog staff ar gontractau cyfnod penodol fesul blwyddyn. Nid ydym wedi cynnwys taliadau goramser ac rydym wedi hepgor ein Hymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgorau o'r cyfrifiad.

*Pecynnau Ymadael*

O dan delerau Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 296 a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ym mis Mawrth 2011, mae'n ofynnol i CGDG gyhoeddi manylion yr holl becynnau ymadael a gytunwyd yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Yn dod o dan y diffiniad o becynnau ymadael y mae diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeoliad cynnar, iawndal am golli swydd, taliadau ex-gratia ac ati. Roedd un tâl yn 2011–12 (2010–11: 0).

**Gwybodaeth archwiliedig**

| | 2011–12 Nifer | 2010–11 Nifer |
|---|---|---|
| £30,000–£35,000 | 1 | 0 |

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

4 Gorffennaf 2012

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

O dan adran 7(2) o Ddeddf 1980, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn, o'i hincwm a'i gwariant, adenillion a cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i Ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â gofynion Canllaw Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FREM) ac yn benodol:

i) dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

ii) llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

iii) datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y FREM, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol; a

iv) pharatoi'r datganiadau ariannol ar y sail weithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gronfa yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r DCMS wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am ddiogelu asedau'r Gronfa a chadw cofnodion priodol, yn cael eu nodi ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu y Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, a gyhoeddir gan y Trysorlys ac a gyhoeddir yn *Managing Public Money.*

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

| | |
|---|---|
| **Y Fonesig Jenny Abramsky**<br>Cadeirydd | **Carole Souter**<br>Prif Weithredwr |

4 Gorffennaf 2012

## Datganiad llywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, mae'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedi pennu gofyniad i mi gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant ac arian y Loteri. Heblaw am hynny, mae CGDG yn gweithredu fel endid unigol gan y credaf fod hon yn ffordd fwy effeithlon o ddosbarthu grantiau. O ganlyniad, mae un strwythur llywodraethu ac mae'r datganiad hwn yn cwmpasu dosbarthiad grantiau cymorth grant a grantiau'r Loteri.

### Y fframwaith llywodraethu

Rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ac ar yr un pryd yn diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Managing Public Money.*

Caiff Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu 'y Gronfa') ei mireinio a'i gweinyddu gan gorfforaeth o'r enw Ymddiriedolwyr CGDG, sy'n cynnwys Cadeirydd ac nid mwy na 14 o aelodau eraill a benodwyd gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998.

Rwyf yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr CGDG sy'n rhannu cyfrifoldeb am:

i) roi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;

ii) diffinio dulliau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus;

iii) goruchwylio'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau CGDG; ac

iv) adrodd am stiwardiaeth cyllid cyhoeddus.

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gweithredu fel grŵp a chynhaliodd 11 o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn i osod polisi ar gyfer CGDG a gwneud penderfyniadau yn unol â'r polisi hwnnw. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn fy mhresenoldeb i a'm cydweithwyr sy'n uwch reolwyr. Roedd cworwm ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2011–12. Cyfradd presenoldeb gyfartalog gyffredinol yr Ymddiriedolwyr oedd 95%, ac ni wnaeth yr un Ymddiriedolwr fynychu llai nag 82% o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u gorchwylion i ddau is-bwyllgor – Cyllid ac Adnoddau, ac Archwilio. Mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau rheoli ac yn cynnig cefnogaeth. Mae cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau yn eitemau sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd, ac mae cadeiryddion y pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau.

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn cynnwys pedwar Ymddiriedolwr a finnau, a chaiff ei gadeirio gan Ymddiriedolwr. Mae dau o'm cyfarwyddwyr hefyd yn mynychu pob cyfarfod. Cyfarfu'r pwyllgor hwn dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob un ohonynt. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys paratoi fframwaith strategol a chynlluniau busnes CGDG, pennu a monitro cyllidebau ar gyfer dyfarniadau grant a chostau gweithredu, arwain rheolaeth ar strwythurau gweinyddol a rheoli, goruchwylio buddsoddi cronfa waddol CGDG a chymeradwyo'r polisi tâl. Roedd y materion arwyddocaol a drafodwyd gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys bodloni ei hun fod y rheolwyr yn monitro beichiau gwaith staff yn ddigonol ar adeg pan fo ceisiadau'n cynyddu; cynigion y rheolwyr ar y strategaeth adeiladau gan fod nifer o brydlesi swyddfeydd yn dod i ben; a'r egwyddorion buddsoddi i'w mabwysiadu ar gyfer y gronfa waddol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar Ymddiriedolwr a chaiff ei gadeirio gan Ymddiriedolwr. Cyfarfu dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cworwm ym mhob cyfarfod. Byddaf innau'n mynychu pob cyfarfod ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys gweithgareddau'r archwilwyr mewnol ac allanol a goruchwylio diwylliant risg CGDG. Yn ystod y flwyddyn aeth y pwyllgor ati i adolygu ei weithrediad yn unol â Rhestr Wirio'r Pwyllgor Archwilio, a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Llenwodd pob aelod pwyllgor yr holiadur ar wahân, fel yr uwch reolwyr, ac roedd yn nodedig fod dealltwriaeth pawb yn weddol gyson. Roedd y pwyllgor yn fodlon ei fod yn gweithredu'n unol ag argymhellion y rhestr wirio. Un canlyniad o'r ymarferiad hwn oedd bod y pwyllgor wedi ystyried pa un a ddylai fod newid i'w gylch gorchwyl i gynnwys ystyried risgiau i brosiectau cymorth grant unigol. Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud gan y byddai'n rhaid i unrhyw newid gael lle yn y strwythur gweithredu ar gyfer y fframwaith strategol arfaethedig, i'w ryddhau yn 2013. Caiff y pwnc ei ailystyried yn ystod 2012–13. Fe wnaeth y pwyllgor drafod hefyd a fyddai'n fuddiol cyd-ethol aelodau allanol â sgiliau arbenigol. Fodd bynnag, penderfynwyd yn erbyn hyn gan fod eisoes cynrychiolwyr o dri chwmni cyfrifyddu ac archwilio mawr ym mhob cyfarfod. Mae'r pwyllgor yn gwneud adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd, ac mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod y pwyllgor yn rhoi iddynt y sicrwydd sydd ei angen arnynt.

Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau ynglŷn â

grantiau ar gyfer mathau penodol a gwerthoedd grantiau'r Loteri i bwyllgorau gwledydd a rhanbarthau. Mae 12 o'r pwyllgorau hyn ac mae pob un yn cynnwys un Ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau ynglŷn â grantiau, mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu maes, a gweithredant fel eiriolwyr gweithgareddau Loteri'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ar gyfer grantiau o dan £50,000 (£100,000 o 1 Ebrill 2012 ymlaen) i staff; penaethiaid rhanbarthau a gwledydd yn benodol. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol a gwledydd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Ymddiriedolwyr ar effaith grantiau bach yn y wlad/rhanbarth a pherfformiad, gan gynnwys rheoli risg. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan staff a phwyllgorau eu hadrodd i'r Bwrdd.

Gweithredaf strwythur pedair adran o fewn CGDG. Y penaethiaid adran a'u dirprwyon yw fy Mwrdd Rheoli. Fi sy'n cadeirio pob cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli, sy'n cyfarfod yn wythnosol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn rheoli gweithgarwch y Gronfa o ddydd i ddydd. Rwyf yn elwa'n fawr ar arbenigedd fy nghydweithwyr sy'n meddu ar flynyddoedd lawer o brofiad yn eu meysydd priodol. Hefyd, cynhaliaf gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Fforwm Rheolwyr sy'n cynnwys pob un o'r rheolwyr canol ac uwch reolwyr. Mae agenda'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys cynllunio a risg yn rheolaidd, ac mae'n galluogi staff o adrannau amrywiol i rannu'u barn ar arfer da.

Mae ein cryfder cyfunol yn ein galluogi i gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ddigon hyblyg i ymdopi â gofynion newidiol ein rhanddeiliaid, ac yn ein galluogi i ymgyfarwyddo â datblygiadau mewn gweinyddu. Cynlluniwyd ein system rheolaeth fewnol i reoli risg at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; dim ond rhoi sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall wneud felly. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CGDG, i werthuso tebygolrwydd sylweddoli'r risgiau hynny a'r effaith pe byddent yn cael eu sylweddoli, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Caiff cynllun gweithredu blynyddol CGDG – y cynllun busnes – ei drafod â'n hadran noddi, sef y DCMS. Mae'r DCMS hefyd wedi gosod cyfarwyddiadau polisi ac ariannol yr ydym ni wedi cydymffurfio â hwy yn ein gweithgareddau Loteri (mae Cynulliad Cymru a Senedd yr Alban wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi hefyd mewn perthynas â'n gweithgareddau Loteri yn y gwledydd hynny). Rydym hefyd yn gweithredu yn unol â Datganiad Rheoli cytunedig a Memorandwm Ariannol sy'n seiliedig ar dempled a luniwyd gan y Trysorlys. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd ag uwch swyddogion y DCMS a chyd-ddosbarthwyr y Loteri.

## Asesu risg

Caiff pob proses pennu polisi a phenderfynu ynglŷn â grantiau eu llywio gan ddiwylliant rheoli risg CGDG. Lluniodd y Bwrdd Rheoli ddatganiad rheoli risg sy'n nodi ein hegwyddorion rheoli risg. Mae hefyd yn disgrifio sut y mae CGDG yn nodi, monitro ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd, ac yn nodi archwaeth risg y Gronfa. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau penodol i unigolion a grwpiau i sicrhau bod arfer rheoli risg CGDG yn cyflawni'i amcanion risg. Cymeradwyir y datganiad gan y Pwyllgor Archwilio, ac fe'i adolygir yn flynyddol.

Mae archwaeth risg y Gronfa, fel y nodir yn y strategaeth rheoli risg, yn datgan: "Dylid annog arfer trwyadl wrth gymryd risgiau a dylid annog arloesedd er mwyn cyflawni amcanion CGDG. Mae hyn yn golygu nad diwylliant osgoi risg 100% yw'r defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau." Credaf fod y Gronfa yn dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant, ac nid yw'n mynd ati'n syml i wneud penderfyniadau sy'n rhydd o risg. I'r perwyl hwn, rydym yn barod i dderbyn na fydd rhai o'r sefydliadau y rhown grantiau iddynt yn dangos cymhwysedd o ran gweinyddu'r grant. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn amgylchiadau prin, rydym yn diddymu'r grant. Yn yr achosion gwaethaf, gall fod rhaid i ni alw'r heddlu i mewn. Y fi sy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy ngalluogi i fonitro'r swm bob blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw awgrym bod ein prosesau asesu a monitro yn ddiofal. Fel y gellir gweld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae'r lefel diddymu grantiau yn eithriadol o fach o gymharu â'r swm a ddosbarthwn bob blwyddyn. Ar y llaw arall, mae'r lefel uwch o ran bodlonrwydd cwsmeriaid a ddangoswyd mewn arolygon annibynnol yn awgrymu nad yw ein harferion gweithio'n rhy feichus i ymgeiswyr. O ganlyniad, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw achos i bryderu ynglŷn â'r lefel risg sydd ymhlyg yn ein prosesau.

Bob blwyddyn, caiff risgiau eu categoreiddio drwy ystyried pa mor debygol y maent o ddigwydd pe na fyddai unrhyw weithgarwch lliniaru risg yn digwydd a'r effaith pe byddai'r risg yn digwydd. Mae'r risgiau lle ystyrir bod yr effaith bosibl yn uchel yn ffurfio cofrestr risg CGDG. Mae'r gofrestr risg yn ffurfio rhan o gynllun busnes blynyddol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar ôl iddo gael ei ardystio'n flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Bwrdd Rheoli'n rhoi'r dasg i'r uwch reolwyr (y 'perchenogion risg') o roi gweithdrefnau ar waith i fonitro risg, ac os yw'n bosibl, ei liniaru.

Mae'r Bwrdd Rheoli'n adolygu effeithiolrwydd eu gwaith bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu effeithiolrwydd ym mhob cyfarfod, ac yn

cwestiynu gweithgareddau perchenogion risg. Ymhellach, mae ein harchwilwyr mewnol yn adolygu'r prosesau rheoli risg fel rhan o'u gwaith a gallant roi budd eu profiad o weithgareddau rheoli risg sefydliadau eraill.

Mae'r papurau polisi a roddir i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i benderfynu arnynt yn cynnwys trafodaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd camau gweithredu posibl. Mae'r Bwrdd hefyd yn trafod un o'r risgiau ar y gofrestr risg yn rheolaidd gyda'r perchennog risg.

Er mai'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio sy'n arwain ar osod y fframwaith risg, mae'r staff ar lefel rheolwyr canol wedi'u hymgorffori'n llawn yn y system. Caiff y gofrestr risgiau ei chylchredeg i'r holl reolwyr canol cyn iddynt gynhyrchu'u cynlluniau tîm blynyddol. Mae pob cynllun blynyddol tîm yn cyfeirio'n benodol at y gofrestr risgiau ac mae'n dweud sut bydd eu gweithgareddau'n gweithredu yng ngolau'r risgiau a nodwyd. Disgwylir iddynt hefyd ddod ag unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg i sylw uwch reolwyr. Caiff eu cynlluniau eu trafod a'u cymeradwyo gan uwch reolwyr. Yn ogystal, mae'r Fforwm Rheolwyr yn trafod yn rheolaidd yr amgylchedd risg y mae CGDG yn gweithredu ynddo, a sut dylai'r Gronfa ymateb. Caiff yr holl reolwyr canol eu harfarnu yn flynyddol o ran y modd y maent yn rhagweld, nodi ac yn rheoli risgiau a chyfleoedd.

Yn 2011–12, ystyriodd CGDG mai'r canlynol yw'r meysydd risg mwyaf sylweddol:

i) mae galw cynyddol mewn hinsawdd economaidd ddirywiol yn rhoi pwysau ar gronfa waddol CGDG a/neu golli treftadaeth gan arwain at gyhoeddusrwydd negyddol a lleihad yn hyder rhanddeiliaid;

ii) grantiau a ddyfarnwyd yn methu bodloni ein hamcanion strategol;

iii) y galw am ddyfarniadau grant, cyngor cyn gwneud cais a gwaith monitro yn mynd y tu hwnt i'n gallu gweithredol;

iv) ein strategaeth yn methu bodloni anghenion y dreftadaeth a'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol, ac felly diffyg cefnogaeth iddi gan ein rhanddeiliaid;

v) methu gosod a dilyn gweithdrefnau effeithlon gan achosi risg aneffeithlonrwydd, twyll neu wneud penderfyniadau sy'n agored i her;

vi) methu recriwtio, cadw a chymell staff medrus priodol;

vii) diffyg cydnabyddiaeth ddigonol am gyfraniad CGDG/CDL gan y rhai sy'n derbyn grantiau;

viii) bod cymorth a dylanwad yn lleihau o ganlyniad i lefel isel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddion ein buddsoddiad, gyda'i rôl hwyluso unigryw ar draws sectorau, gan randdeiliaid a'r cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri;

ix) risg craffu cynyddol gan y cyfryngau a llunwyr barn ar ein penderfyniadau ariannu yn yr amodau economaidd a gwleidyddol presennol, gyda'r potensial am ymateb niweidiol.

Mae gan CGDG bolisi twyll a adolygir yn flynyddol. Caiff ei roi i bob aelod newydd o'r staff yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, ac maent i gyd yn cael sesiwn hyfforddi undydd ar ymwybyddiaeth twyll. Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sydd i'w ddilyn gan bob aelod o staff – mae staff newydd yn ei ddarllen fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Mae'r polisi, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn, yn mynnu bod pob data'n cael eu cadw'n ddiogel. Mae CGDG yn cydymffurfio â'r Fframwaith Polisi Diogelwch a mesurau gorfodol yr Adolygiad Trin Data.

### Materion arwyddocaol yr ymdriniwyd â hwy gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn

Y gweithgarwch mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu paratoi ar gyfer ei fframwaith strategol newydd. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn ymgynghori â rhanddeiliaid a dadansoddi'u sylwadau, ac yna rhoi'r cyfan at ei gilydd mewn fframwaith strategol a gaiff ei lansio yn ystod 2012–13.

Roedd materion eraill yr ymdriniodd y Bwrdd â hwy yn cynnwys lansio cyfarwyddiadau polisi ar gyfer yr Alban a grëwyd gan Lywodraeth yr Alban, a menter y llywodraeth i annog dyngarwch (o'r enw Catalydd). Mae'r Bwrdd wedi cytuno i neilltuo £20miliwn dros y pedair blynedd nesaf ar gyfer Catalydd.

Mae'r cynnydd sylweddol a ragwelir yn incwm y Loteri dros y blynyddoedd nesaf, o ganlyniad i benderfyniad y llywodraeth i gynyddu ein cyfran o arian i achosion da i 20%, y lefel uchel o werthiannau tocynnau'r Loteri a therfynu'r trosglwyddiadau i helpu ariannu Gemau Olympaidd 2012 wedi galluogi cynnydd mawr yn y gyllideb grant ar gyfer 2012–13. Ceisiodd a chafodd Ymddiriedolwyr sicrwydd gan y rheolwyr fod strwythur gweinyddol CGDG yn gallu delio â chynnydd mor fawr mewn dyfarniadau.

Ni ddaeth unrhyw beth o bryder i'r amlwg o unrhyw un o'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Bwrdd. Roedd yr adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol (rhoddir mwy o fanylion isod). Yr unig destun pryder y bu'n rhaid i'r Bwrdd ddelio ag ef oedd effaith y cymorth grant isaf posibl eleni ar y gronfa waddol, y dirywiad ym marchnadoedd stoc y byd a lefel uchel y galw am ddyfarniadau cymorth grant. Mae hyn wedi arwain at y gronfa waddol yn gostwng ymhell islaw ei gwerth targed. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, y diffyg oedd £5.2miliwn; ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd

yn £11.3miliwn. Ar hyn o bryd, bob tro y caiff cais am gymorth grant ei roi ger eu bron, nid yn unig y mae'n rhaid i'r Bwrdd ystyried ei rinweddau o ran treftadaeth genedlaethol Prydain, ond mae'n rhaid iddo hefyd ystyried beth fydd yr effaith ar ein cronfa waddol.

**Perfformiad y Bwrdd**
Cynhaliodd y Bwrdd ei asesiad blynyddol o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Chwefror 2012. Ym mis Chwefror 2010 aeth y Bwrdd ati i wella'i lywodraethu drwy gwblhau holiadur hunanwerthuso, a hwyluswyd gan Yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol. Yn y ddwy flynedd ers yr adolygiad hwnnw, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu'r egwyddorion a amlinellwyd yn yr holiadur hwnnw (yn canolbwyntio ar ddiben y sefydliad ac ar ddeilliannau, cyflawni'n effeithiol mewn rolau wedi'u diffinio'n glir, hyrwyddo gwerthoedd i'r sefydliad cyfan a dangos gwerthoedd llywodraethu da, gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw a rheoli risg, datblygu cymhwysedd a gallu'r Bwrdd) wrth wneud penderfyniadau ac wrth gynnal eu hasesiad blynyddol o effeithiolrwydd. Mae'r strwythur a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r gwaith hwn wedi parhau i ddarparu llywodraethu effeithiol i CGDG. Roedd y Bwrdd yn fodlon â'i berfformiad llywodraethu yn ystod y flwyddyn ac ystyriai ei fod wedi bodloni Cod Llywodraethu Corfforaethol y Trysorlys. Nid oedd unrhyw beth yn unrhyw un o'r adroddiadau archwilio mewnol nac allanol a roddwyd gerbron Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd a barodd unrhyw bryder iddo. O ganlyniad, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar ansawdd data a roddir ger ei fron gan reolwyr ac y seilia'i benderfyniadau arno.

Fel rhan o'i asesiad blynyddol, cytunodd y Bwrdd i wneud y canlynol:

1 Byddai ymglymiad allanol yn yr ymarferiad asesu'n digwydd bob tair blynedd.

2 Byddai Ymddiriedolwyr Newydd yn "cysgodi" cydweithiwr mwy profiadol yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Byddai hyn yn eu helpu i ymgyfarwyddo'n gyflymach.

Mae cyfnod ymsefydlu ar gyfer pob Ymddiriedolwr newydd adeg eu penodi, sy'n eu cyflwyno i'w rhwymedigaethau fel Ymddiriedolwr, gwaith CGDG a'i systemau, ac mae hynny'n helpu eu paratoi i wneud cyfraniad llawn at waith y Bwrdd. Caiff effeithiolrwydd Ymddiriedolwyr ei arfarnu gan y Cadeirydd yn flynyddol a chynhelir cyfweliadau ymadael pan fydd eu contractau'n dod i ben i'w galluogi i wneud unrhyw sylwadau ar sut i wella gweithrediad y Bwrdd.

**Y flwyddyn lywodraethu**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r uwch reolwyr yn CGDG sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. O ganlyniad i'w gwaith yn ystod y flwyddyn, mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu tystysgrif flynyddol o sicrwydd mewn perthynas â digonolrwydd y systemau a gweithrediad rheolaethau mewnol yn CGDG. Yn ogystal, rwyf wedi gweld llythyr y rheolwyr a baratowyd gan yr archwilwyr allanol yn dilyn eu harchwiliad o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012. Rwyf wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad f'adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun ar waith i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod y system rheolaeth fewnol yn gwella'n barhaus.

Caiff y cynllun archwilio mewnol blynyddol ei greu ar sail risg; darparwyd copi o'r gofrestr risg ddrafft i'r archwilwyr mewnol ar gyfer 2011 wrth baratoi eu cynllun. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio adolygu a chymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol. Fe wneuthum sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y cynllun i ganiatáu ar gyfer gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn yr amgylchedd risg neu risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Nid oedd unrhyw risgiau, fodd bynnag.

Trafodwyd holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio ym mhresenoldeb uwch aelodau o staff, gan gynnwys y rheiny yr adroddwyd ar eu hadrannau gan yr archwilwyr – roedd hyn yn rhoi'r cyfle i mi ac aelodau'r pwyllgor i drafod yn fanwl y canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau arfaethedig gan y rheolwyr. Roedd yn ofynnol i benaethiaid adran y nododd yr archwilwyr mewnol fod ganddynt ddiffygion yn eu hadran, lunio cam cywirol a gosod dyddiad cwblhau ar gyfer y cam hwnnw mewn ymgynghoriad â'r archwilwyr mewnol. Caf adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr sy'n rhoi gwybod i mi am y cynnydd y mae fy mhenaethiaid adran wedi'i gyflawni yn gwella'r pwyntiau a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol mewn blynyddoedd blaenorol.

Deilliodd yr adroddiad archwilio mwyaf arwyddocaol o ymweliad â phump o'n swyddfeydd rhanbarthol a gwledydd – Belfast, Caergrawnt, Caeredin, Caerwysg a Newcastle – lle'r oeddwn yn falch o nodi nad oedd unrhyw ddirywio mewn effeithiolrwydd er bod y swyddfeydd hyn ymhell yn ddaearyddol o'r ganolfan. Edrychodd adroddiadau archwilio mewnol eraill ar ein system ar gyfer sicrhau bod grantïon y Loteri yn cydnabod ein dyfarniadau – yn anffodus nid yw pob grantî yn gwneud hyn er ei fod yn ofyniad contractiol; ein harferion gweithio fel landlord nawr ein bod yn rhentu rhan o adeilad ein prif swyddfa yn Llundain; a rheolaethau cyffredinol yn ein tîm cyllid. Roeddwn

yn fodlon â chanlyniadau'r adroddiadau archwilio mewnol hynny. Ni wnaed unrhyw newidiadau o bwys i'n systemau yn 2011–12 ac nid oes unrhyw broblemau wedi codi sy'n fy arwain i gredu nad yw'r system rheolaeth fewnol yn gweithredu'n effeithiol. Disgrifiodd yr archwilwyr mewnol fod gan CGDG "fframwaith rheoli mewnol cadarn ac effeithiol ar waith" yn eu hadroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio. Nid oedd unrhyw beth yn llythyr y rheolwyr a luniwyd gan yr archwilwyr allanol sy'n fy arwain i amau digonolrwydd ein systemau.

Mynnais hefyd fod holl aelodau'r tîm uwch reolwyr a'r rheolwyr canol yn llofnodi memoranda cynrychiolaeth blynyddol i mi, yn nodi'u cyfrifoldebau ac yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn 2011–12. Mae pob un o'r rheolwyr wedi llofnodi'r memorandwm ac maent yn ymwybodol fy mod yn dibynnu ar yr haeriadau hyn o'm rheolaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n paratoi adroddiad o'i weithgarwch i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr unwaith y flwyddyn. Nid oedd yr archwilwyr mewnol nac allanol wedi datgelu unrhyw beth anffafriol yn ystod y flwyddyn. Daeth y pwyllgor i'r casgliad, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2012, ei fod wedi gweithredu'n foddhaol yn ystod 2011–12. Roedd y Bwrdd yn falch o glywed hyn a chadarnhaodd y farn hon yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn paratoi dau adroddiad y flwyddyn i'r Bwrdd yn ychwanegol at ei gofnodion cyfarfodydd. Roeddent yn gallu adrodd ein bod wedi cael blwyddyn lwyddiannus a bodlonwyd y gyllideb grant; cadwom o fewn ein cyllideb weithredu a chwrdd â thargedau DCMS ar gyfer prosesu grantiau'r Loteri a chyfanswm costau gweithredol fel cyfran o incwm; cawsom flwyddyn lwyddiannus arall o ran cyrraedd ein targedau lefel gwasanaeth ac mae ein lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid yn uchel. Cyflawnwyd hyn i gyd ar adeg pan fo ceisiadau am grantiau ar lefelau uwch na'r blynyddoedd blaenorol, ac mae ein sylfaen costau ar ei isaf ers i ni agor ein swyddfeydd gwledydd a rhanbarthol ddegawd yn ôl.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith y Gronfa yn rhoi i mi'r lefel sicrwydd y gofynnaf amdani. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n fy arwain i gredu fod ein systemau ar gyfer canfod ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a chanfod twyll ac ar gyfer lleihau colledion cymorth grant a grantiau'r Loteri yn annigonol. Credaf fod y strwythur llywodraethu wedi gweithredu'n llwyddiannus yn ystod 2011–12.

## Cofnodion presenoldeb

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn pennu gofyniad arnom i ddatgelu cofnodion presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd o is-bwyllgorau'r Bwrdd.

*Cofnod presenoldeb y Bwrdd*

| | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Presenoldeb gwirioneddol |
|---|---|---|
| Y Fonesig Jenny Abramsky Cadeirydd | 11 | 11 |
| Kim Evans | 11 | 10 |
| Yinnon Ezra | 11 | 11 |
| Kathy Gee | 11 | 11 |
| Doug Hulyer | 11 | 9 |
| Dan Clayton Jones hyd nes 11 Ionawr 2012 | 8 | 8 |
| Hilary Lade | 11 | 10 |
| Alison McLean | 11 | 11 |
| Richard Morris o 16 Mai 2011 | 10 | 9 |
| Atul Patel o 16 Mai 2011 | 10 | 10 |
| Seona Reid o 1 Ebrill 2011 | 11 | 11 |
| Ronnie Spence | 11 | 11 |
| Virginia Tandy | 11 | 10 |
| Richard Wilkin hyd nes 11 Ionawr 2012 | 8 | 8 |
| Manon Williams o 12 Ionawr 2012 | 3 | 3 |
| Christopher Woodward | 11 | 9 |

*Cofnod presenoldeb y Pwyllgor Archwilio*

| | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Presenoldeb gwirioneddol |
|---|---|---|
| Yinnon Ezra | 3 | 3 |
| Doug Hulyer | 3 | 3 |
| Alison McLean | 3 | 2 |
| Ronnie Spence | 3 | 3 |

*Cofnod presenoldeb y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau*

| | Nifer y cyfarfodydd cymwys | Presenoldeb gwirioneddol |
|---|---|---|
| Jenny Abramsky | 3 | 3 |
| Kim Evans | 3 | 2 |
| Hilary Lade | 3 | 2 |
| Atul Patel | 1 | 1 |
| Carole Souter | 3 | 3 |
| Richard Wilkin | 2 | 2 |

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

4 Gorffennaf 2012

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a osodwyd allan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

**Cyfrifoldebau priodol yr Ymddiriedolwyr, y Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**
Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol**
Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, pa un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: ba un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysonderau materol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau materol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddwyd amdanynt yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn ar Reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Yn fy marn i:

i) mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2012 ac o'i gwariant net cynhwysfawr a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

ii) mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan y ddeddf honno.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i:

i) mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980; ac

ii) mae'r wybodaeth a roddir yn Sylwadau'r Rheolwyr a'r Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

i) nid oes cofnodion cyfrifon digonol wedi'u cadw; neu

ii) nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifon; neu

iii) nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer f'archwiliad; neu

iv) nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi.

**Adroddiad**
Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas CE Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

6 Gorffennaf 2012

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SWIW 9SP

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | £'000 | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm gweithredol amrywiol** | 3 | | **69** | 60 |
| Dyfarniadau newydd a wnaed yn ystod y flwyddyn | 15 | **(4,989)** | | (12,716) |
| Dyfarniadau wedi'u dad-ymrwymo | 15 | **643** | | 2,584 |
| | | | **(4,346)** | (10,132) |
| Costau staff | 4 | **(46)** | | (45) |
| Dibrisiad | 11 | **(2)** | | (1) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **(54)** | | (74) |
| | | | **(102)** | (120) |
| **Gwariant gweithredol** | | | **(4,448)** | (10,252) |
| **Diffyg gweithredol** | | | **(4,379)** | (10,192) |
| Incwm o fuddsoddiadau | 7 | **0** | | 205 |
| Elw ar werthu buddsoddiadau | 8 | **164** | | 5,154 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | 9 | **25** | | 103 |
| **Incwm anweithredol** | | | **189** | 5,462 |
| **Gwariant net cynhwysfawr a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig** | | | **(4,190)** | (4,730) |
| **Incwm cynhwysfawr arall** | | | | |
| Colled net ar ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | 19 | | **(63)** | (3,864) |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012** | | | **(4,253)** | (8,594) |

Nid yw'r datganiad o wariant yn cynnwys gweithgareddau Loteri CGDG, yr adroddir arnynt ar wahân yng nghyfrifon CDL. Mae'r holl ffigurau a ddangosir yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus. Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 48 yn llunio rhan o'r cyfrifon.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Cronfa wrth gefn gwerth teg £'000 | Cyfrif incwm a gwariant £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2010 | 6,245 | 31,724 |
| **Newidiadau mewn ecwiti yn 2010–11** | | |
| Elw net ar ailbrisio buddsoddiadau | (3,864) | |
| Diffyg a gadwyd | | (4,730) |
| Cymorth grant gan y DCMS | | 0 |
| Balans ar 31 Mawrth 2011 | 2,381 | 26,994 |
| **Newidiadau mewn ecwiti yn 2011–12** | | |
| Colled net ar ailbrisio buddsoddiadau | (63) | |
| Diffyg a gadwyd | | (4,190) |
| Cymorth grant gan y DCMS | | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | **2,318** | **22,804** |

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cost llyfr a gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y gronfa waddol (gweler nodyn 12 i'r cyfrifon). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodyn 11) yn berthnasol.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
ar 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2012 £'000 | 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 11 | **8** | 10 |
| Asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | 12 | **26,398** | 29,310 |
| | | **26,406** | 29,320 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 13 | **25** | 34 |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian | 10 | **98** | 6,703 |
| Arian a ddelir yn y gronfa waddol | 10 | **0** | 29 |
| | | **123** | 6,766 |
| **Cyfanswm asedau** | | **26,529** | 36,086 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau gweinyddol | 14 | **(43)** | (44) |
| Ymrwymiadau grant sy'n ddyledus mewn blwyddyn | 15 | **(1,364)** | (6,667) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **25,122** | 29,375 |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa wrth gefn gwerth teg | 19 | **2,318** | 2,381 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | **22,804** | 26,994 |
| | | **25,122** | 29,375 |

Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys balansau sy'n ymwneud â gweithgareddau Loteri CGDG sy'n cael eu datgelu ar wahân yng nghyfrifon CDL. Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 48 yn llunio rhan o'r cyfrifon.

**Y Fonesig Jenny Abramsky**
Cadeirydd

**Carole Souter**
Prif Weithredwr

4 Gorffennaf 2012

# Datganiad Llifoedd Arian
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodiadau | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian o incwm gweithredol amrywiol | 3 | **69** | 60 |
| Arian a dalwyd i gyflogeion ac ar eu rhan | | **(46)** | (45) |
| Llog a dderbyniwyd | | **43** | 86 |
| Arian a dalwyd i gyflenwyr | | **(64)** | (94) |
| Arian a dalwyd i dderbynyddion grant | 15 | **(9,649)** | (11,983) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | 17a | **(9,647)** | (11,976) |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | 17b | **3,013** | 3,092 |
| Derbyniadau arian net y gronfa waddol | | **0** | 261 |
| **Mewnlif arian net o adenillion ar fuddsoddiadau** | | **3,013** | 3,353 |
| **Llifoedd arian cyn ariannu** | | **(6,634)** | (8,623) |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Cymorth grant | 17c | **0** | 0 |
| **Gostyngiad mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | | **(6,634)** | (8,623) |

# Cysoni Llifoedd Arian Net i Symudiad mewn Cronfeydd Net
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Gostyngiad mewn arian gweithredol yn y cyfnod | **(6,634)** | (8,623) |
| Arian a ddefnyddiwyd i gynyddu adnoddau hylifol | **0** | 0 |
| **Newidiadau mewn arian a symiau cyfwerth ag arian** | **(6,634)** | (8,623) |
| Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 1 Ebrill 2011 | **6,732** | 15,355 |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian ar 31 Mawrth 2012** | **98** | 6,732 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 48 yn llunio rhan o'r cyfrifon.

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw safonau a dehongliadau dan sylw, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto, y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl byddant yn cael effaith sylweddol ar yr incwm a'r asedau net a adroddwyd ar weithgareddau CGDG neu ei gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Llunnir y cyfrifon hyn mewn ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Cânt eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2006 a'r FREM, i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol, a chyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Hydref 2002. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FREM yn cymhwyso IFRS fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Mae cyfarwyddyd cyfrifon y Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn eithrio'n benodol paratoi cyfrifon cyfunol. Mae copïau o ddosbarthiad y Loteri a chyfarwyddiadau'r cyfrifon cymorth grant ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd, 7 Holbein Place, Llundain SW1W 8NR.

Pan fo'r FREM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig CGDG at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### b) Grantiau'r llywodraeth

Caiff grantiau'r llywodraeth eu trin fel cyllid am eu bod yn cael eu hystyried yn gyfraniadau oddi wrth barti rheoli sy'n arwain at fuddiant ariannol. Gwneir hyn drwy addasu'r cyfrif incwm a gwariant cronedig. Ni wneir unrhyw ddyraniadau rhwng grantiau at ddibenion refeniw a chyfalaf..

### c) Asedau anghyfredol

Diffinnir asedau anghyfredol fel yr eitemau hynny a brynwyd at ddefnydd hirdymor CGDG a'i weithgareddau dosbarthu arian y Loteri a phan fo cyfanswm y gost uwchlaw £2,000. Darperir dibrisiad ar sail llinell syth ar yr holl asedau anghyfredol, gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu dal o dan brydlesi cyllid, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Mae'r oesoedd hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Eiddo prydles fer | – oes y brydles |
| Offer swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Gosodiadau swyddfa | – 4–10 mlynedd |
| Asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd |

Ni chaiff unrhyw gostau wedi'u cynhyrchu'n fewnol eu cyfalafu.

### d) Buddsoddiadau

Mae asedau ariannol anghyfredol – ein buddsoddiadau – wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gost marchnad. Cynhwysir enillion a cholledion wedi'u realeiddio yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac fe'u cyfrifir fel y gwahaniaeth rhwng derbyniadau o werthiannau a chost hanesyddol. Caiff enillion a cholledion heb eu realeiddio ar fuddsoddiadau asedau sefydlog eu hadlewyrchu yn y gronfa wrth gefn gwerth teg a'r datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr.

### e) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG yn statudol eithriedig. Nid yw CGDG yn gallu adennill Treth Ar Werth (TAW) a godir arni a chaiff y gost TAW gynhwysol ei chynnwys o dan y penawdau gwariant perthnasol.

### f) Pensiwn

Caiff cost reolaidd darparu buddion ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod oesoedd gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae staff yn aelodau o PCSPS a hysbysir canran y tâl pensiynadwy gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

### g) Prydlesi

Codir y rhent blynyddol ar brydlesi gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth yn ystod cyfnod y brydles. Pan fydd gan brydlesi sylwedd prydlesi cyllid, a'u bod yn berthnasol, ymdrinnir â nhw fel prydlesi cyllid. Caiff eitemau o dan brydlesi cyllid eu cyfalafu ar eu cost amcangyfrifedig, heb gynnwys unrhyw log a godwyd gan y prydleswr. Codir taliadau llog sy'n ddyledus o dan delerau cytundeb y brydles i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar ddyddiad pob taliad o dan y brydles.

### h) Dyfarniadau grant

Caiff penderfyniadau cadarnhaol gan Ymddiriedolwyr eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr adeg y dyfarnu. Bydd dad-ymrwymiadau'n digwydd pan na chymerir dyfarniad neu ddyfarniad rhannol gan y sawl y dyfernir grant iddo.

**i) Adrodd segmentaidd a dyrannu costau**
Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 8 yn pennu gofyniad bod gwybodaeth yn cael ei darparu ar adroddiadau segmentaidd pan fydd hyn yn berthnasol i weithgareddau'r sefydliad. Pan fo'n briodol, byddai uwch reolwyr yn nodi ffrydiau gweithgarwch ar wahân ac yn aseinio costau gweithredol iddynt ar sail pro rata yn seiliedig ar y lefel grant a ddyfarnwyd, oni bai bod gwahaniaeth sylweddol yn y modd y cafodd y ceisiadau eu prosesu, ac os felly, byddai dulliau ad hoc yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, heblaw am gyfrif ar wahân ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu'r Loteri, y mae'n ofynnol i CGDG ei wneud o dan ei gyfarwyddyd cyfrifon y Loteri, nid yw'r Ymddiriedolwyr o'r farn y gellir rhannu eu gweithgareddau cymorth grant na'u gweithgareddau dosbarthu'r Loteri yn segmentau ar wahân.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol a rennir rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae gofyn i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â *Managing Public Money* a gyhoeddir gan y Trysorlys. Mae'r dosraniad cost hwn yn ceisio adlewyrchu cyfran benodol yr amser a'r costau a ymrwymwyd i'r ddwy gronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd i CDL oedd 99% (2010–11: 99%).

## 2. Cymorth grant

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Grant oddi wrth y DCMS | **0** | 0 |

## 3. Incwm gweithredol amrywiol

Mae hyn yn cynnwys:

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-daliadau grant | **9** | 0 |
| Rhoddion a chymynroddion | **1** | 1 |
| Derbyniadau gan reolwyr buddsoddi | **59** | 59 |
| | **69** | 60 |

Y derbyniadau gan reolwyr buddsoddi yw'r symiau a delir i ni gan Schroders. Mae'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y ffi a drafodwyd o dan ein contract gyda hwy a'r ffi sylfaenol a godwyd o fewn y cyfrwng buddsoddi y maent yn buddsoddi ynddo – sef y Gronfa Aml-Asedau Elusen. Mae'r Gronfa Aml-Asedau yn codi cyfradd ffi uwch na hynny a gytunwyd o dan y contract ac felly derbyniwn daliad bob chwarter. Caffaelir y ffi sylfaenol a godir o fewn y Gronfa Aml-Asedau gan Schroders gan ddidynnu'r swm o'r balansau arian a ddelir o fewn y Gronfa honno bob chwarter, gan effeithio felly ar werth unedau unigol y Gronfa Aml-Asedau. Felly adlewyrchir y gost i CGDG o ddefnyddio Schroders yng ngwerth ei unedau. Mae'r Gronfa Aml-Asedau yn buddsoddi mewn nifer o ymddiriedolaethau uned ac ymddiriedolaethau buddsoddi, y bydd pob un ohonynt yn cynnwys ffioedd rheoli ynddynt hefyd.

## 4. Costau a niferoedd staff

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | **36** | 35 |
| Taliadau YG y cyflogwr | **3** | 3 |
| Taliadau i gynllun pensiwn | **7** | 6 |
| Costau staff dros dro | **0** | 1 |
| | **46** | 45 |

Dyrannwyd costau ychwanegol gwerth £9,508,000 i weithgareddau dosbarthu'r Loteri, ac fe'u hadlewyrchir yn y cyfrifon hynny.

Roedd nifer gyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2011–12 Nifer | 2010–11 Nifer |
|---|---|---|
| Ceisiadau grant | **2** | 2 |
| Cyllid a gwasanaethau corfforaethol | **0** | 0 |
| Strategaeth a datblygu busnes | **0** | 0 |
| Cyfathrebu | **0** | 0 |
| | **2** | 2 |

Datgelir y ffigurau uchod fel ffigurau cyfwerth ag amser llawn. Yn ogystal, cyflogwyd 227 o staff parhaol ar gyfartaledd ar weithgareddau CDL.

## 5. Pensiynau

Darperir budd-daliadau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil – y PCSPS. Ers 30 Gorffennaf 2007, mae staff newydd heb unrhyw aelodaeth PCSPS flaenorol yn gallu ymuno â Nuvos. Mae hwn yn gynllun pensiwn budd-dâl diffiniedig sy'n gysylltiedig â'r mynegai. Y gyfradd gyfrannu yw 3.5% i aelodau ar hyn o bryd, a bydd yn darparu pensiwn budd-dâl diffiniedig gydag oed pensiwn o 65.

Mae'r staff a ymunodd â CGDG cyn 30 Gorffennaf 2007, neu oedd yn berchen ar aelodaeth PCSPS gymwys o'r blaen wrth ymuno ers y dyddiad hwnnw, yn aros yn un o dri chynllun â buddion wedi'u diffinio 'cyflog terfynol' statudol (classic, premium a classic plus). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff

pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a Nuvos eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Gosodir cyfraniadau cyflogeion ar y gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5% ar gyfer premium, classic plus a Nuvos. Mae buddion yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy ar ymddeoliad. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd 1 rhan o 60 o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) rhywfaint o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). I bob pwrpas, mae classic plus yn amrywiad o premium, ond gyda buddion o ran gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â chynllun classic, ac mae buddion am wasanaeth ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfrifo fel yn y cynllun premium. Yn y cynllun Nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn a enillodd yr aelod ei gredydu â 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis cymudo pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Gallai aelodau a ymunodd â CGDG o fis Hydref 2002 fod wedi dewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr, a elwir yn Gyfrif Pensiwn Partneriaeth. Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy at PCSPS i dalu cost yswiriant budd risg cyfandaliad a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad yn sgil salwch). Ar hyn o bryd, mae pump o aelodau staff â chyfrif pensiwn partneriaeth. Ni wnaeth yr un aelod o staff ymddeol yn gynnar ar sail iechyd yn ystod 2011–12.

Cynyddodd cyfraddau cyfraniadau cyflogeion ym mis Ebrill 2012 fel yr amlinellwyd yn Hysbysiad Pensiynau Cyflogwyr 314. Bydd maint y cynnydd canran yn dibynnu ar gyflog yr aelod o staff.

Er bod y cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a sicrheir gan y PCSPS yn talu cost sicrhad pensiwn a ddarperir i'r staff a gyflogant drwy dalu costau a gyfrifir ar sail gronnus. Ar gyfer 2011–12, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £6,498 (2010–11: £6,466) i'r PCSPS ar y cyfraddau a nodir yn y tabl isod. Caiff cyfraniadau cyflogwr eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl prisiad cynllun llawn gan actwari'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gellir gweld mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan http://www.civilservice.gov.uk/my-civil-service/pensions/index.aspx

Cyfrifwyd taliadau'r cyflogwr ar sail bandiau cyflog, fel a ganlyn:

| Cyflog yn 2011–12 | % yn 2011–12 |
|---|---|
| £21,000 ac is | **16.7%** |
| £21,001–£43,500 | **18.8%** |
| £43,501–£74,500 | **21.8%** |
| £74,501 ac uwch | **24.3%** |

## 6. Diffyg gweithredol

Nodir y diffyg gweithredol ar ôl codi'r canlynol:

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl yr archwilydd | **9** | 10 |
| Taliadau o dan brydlesi gweithredol | | |
| – safleoedd prydles | **5** | 6 |
| – llogi offer a pheiriannau | **0** | 0 |

Dyrannwyd costau ychwanegol gwerth £7,136,000 i gyfrifon dosbarthu'r Loteri CGDG. Fel a ddatgelir yn nodyn 1 i'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu ei chostau i'w gweithgareddau dosbarthu'r Loteri. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyfran y costau ar y cyd a ddosrannwyd oedd 99%.

Mae dadansoddiad o gostau gweithredu eraill, gan gynnwys yr eitemau uchod, fel a ganlyn:

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | 9 | 11 |
| Post a ffôn | 2 | 1 |
| Cyflenwadau swyddfa, argraffu a deunydd ysgrifennu | 4 | 4 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 0 | 1 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| – safleoedd prydles | 4 | 9 |
| – llogi offer a pheiriannau | 11 | 19 |
| Cyfathrebu | 19 | 24 |
| Costau amrywiol | 5 | 5 |
| | 54 | 74 |

## 7. Incwm o fuddsoddiadau

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | 0 | 205 |

Mae'r incwm wedi gostwng yn sylweddol yn dilyn newid y rheolwr buddsoddi o JP Morgan i Schroders yn 2010. Roedd JP Morgan yn bennaf yn buddsoddi'r gronfa waddol yn uniongyrchol mewn ymddiriedolaethau uned a oedd yn talu difidendau rheolaidd i CGDG – enillwyd yr incwm yn 2010–11 yn y modd hwn. Ar y llaw arall, mae Schroders wedi buddsoddi'r gronfa waddol mewn unedau mewn un gronfa sy'n buddsoddi mewn ystod eang o asedau. Er bod yr asedau sylfaenol hynny yn talu difidendau, nid yw prif gronfa Schroders yn talu difidendau gan mai twf cyfalaf yw ei raison d'être. Mae Nodyn 12 yn rhoi mwy o wybodaeth.

## 8. Elw ar werthu buddsoddiadau

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | 164 | 5,154 |

Yn 2010–11, aethpwyd ati i drosglwyddo'r rheolwr buddsoddi o JP Morgan i Schroders drwy werthu'r buddsoddiadau a oedd yn cael eu rheoli gan JP Morgan a throsglwyddo'r arian i Schroders. O ganlyniad, roedd lefel uwch o lawer o werthiannau buddsoddi nag sy'n arferol, gan arwain at enillion lawer mwy na'r arfer.

## 9. Llog sy'n dderbyniadwy

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Llog banc sy'n dderbyniadwy | | |
| – Barclay's Bank | 1 | 9 |
| – Schroder & Co. Limited | 24 | 94 |
| | 25 | 103 |

## 10. Arian a symiau cyfwerth ag arian

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Mynediad syth | | |
| – Barclay's Bank | 16 | 77 |
| – cronfa waddol | 0 | 29 |
| – Schroder & Co. Limited | 82 | 1,595 |
| Rhybudd saith niwrnod | | |
| – Schroder & Co. Limited | 0 | 5,031 |
| | 98 | 6,732 |

Mae Schroder & Co. Limited yn rhoi arian ar gadw gyda sefydliadau ariannol eraill. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cronfeydd CGDG gyda Nationwide Corporate International (Ynys Manaw).

## 11. Eiddo, peiriannau ac offer

| | Eiddo Prydles Fer | | TG ac offer arall | | Ffitiadau Swyddfa | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 3 | 2 | 14 | 13 | 1 | 1 | 18 | 16 |
| Ychwanegiadau | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Gwarediadau | (0) | (0) | (0) | (1) | 0 | 0 | (0) | (1) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 3 | 3 | 14 | 14 | 1 | 1 | 18 | 18 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | 0 | 0 | 7 | 7 | 1 | 1 | 8 | 8 |
| Cost am y flwyddyn | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Addasiad ar waredu | (0) | (0) | (0) | (1) | 0 | 0 | (0) | (1) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 0 | 0 | 9 | 7 | 1 | 1 | 10 | 8 |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 3 | 2 | 7 | 6 | 0 | 0 | 10 | 8 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 3 | 3 | 5 | 7 | 0 | 0 | 8 | 10 |

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mewn adolygiad o werthoedd cost cyfredol ar 31 Mawrth 2012, ni ddatgelwyd unrhyw wahaniaeth materol i werthoedd cost hanesyddol. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiad i adlewyrchu gwerthoedd cost cyfredol eiddo, peiriannau ac offer. Mae gwerth eiddo, peiriannau ac offer yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% ar gyfer Cronfa'r Loteri ac 1% ar gyfer cymorth grant.

**Prydlesi cyllid**
Roedd rhai o'r eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu dal o dan brydlesi cyllid, fel a ddangosir yn y tabl isod. Cynhwysir y ffigurau yn y tabl uchod.

TG ac offer arall:

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 1 | 1 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 1 | 1 |
| Dibrisiad ar ddechrau'r flwyddyn | 0 | 0 |
| Taliadau am y flwyddyn | 1 | 0 |
| Addasiad ar waredu | 0 | 0 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 1 | 0 |
| Gwerth llyfr net | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 1 | 1 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 0 | 1 |

Y rhwymedigaethau o dan y prydlesi cyllid hyn yw:

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau am brydlesi sy'n dod i ben | | |
| – mewn blwyddyn | 1 | 0 |
| – ym mlynyddoedd dau i bump | 0 | 1 |
| | 1 | 1 |

## 12. Asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu

Sefydlwyd CGDG yn olynydd i'r Gronfa Dir Genedlaethol. Roedd yr Ymddiriedolwyr o'r farn y dylid ystyried £10miliwn o'r cymorth grant cychwynnol a sefydlodd CGDG yn weddillion y Gronfa Dir Genedlaethol, ac fe'i gelwir yn gronfa waddol. Penderfynwyd ei fuddsoddi a chynnal ei werth cyfalaf mewn termau real o'i gymharu â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Y tu hwnt i hynny, nod y buddsoddiad yw cyflawni digon o dyfiant mewn termau real i alluogi CGDG fodloni ei rhwymedigaethau. I'r perwyl hwn, gellir gwneud buddsoddiad mewn asedau ariannol hawdd eu marchnata y tu allan i'r DU. Mae tabl isod yn crynhoi gwasgariad y buddsoddiad byd-eang. Gellir tynnu gwerth gwarged y gronfa waddol (h.y. yr hyn sydd dros ben i werth cyfredol y £10miliwn cychwynnol) i lawr i gyllido proses dyfarnu grantiau CGDG. Ar brydiau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi tynnu cyllid i lawr sy'n mynd â gwerth y gronfa waddol o dan ei gwerth targed. Yn anfodlon y gwna'r Ymddiriedolwyr hyn ac ond pan wynebant y posibilrwydd o golli rhan arwyddocaol o dreftadaeth y DU. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r diffyg ac yn defnyddio cymorth grant y dyfodol i ailgyflenwi'r gronfa waddol os nad yw twf cyfalaf yn uwch na'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu.

Ar 31 Mawrth 2012, byddai'r buddsoddiad gwreiddiol £10miliwn yn werth £37.7miliwn gan ystyried mynegeio – gwerth gwirioneddol y farchnad yw £26.4miliwn.

Mae'r gronfa waddol yn cynnwys y canlynol:

| | Gwerth marchnad 2011–12 £'000 | Cost llyfr 2011–12 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol hirdymor | 26,398 | 24,080 |
| Arian parod | 0 | 0 |
| | 26,398 | 24,080 |

Caiff y gyfran o'r gronfa hon ar ffurf arian parod ei datgelu yn y cyfrifon hyn fel ased cyfredol – fel rhan o'r balansau arian parod.

Mae'r gronfa waddol wedi'i buddsoddi yng Nghronfa Aml-Asedau Elusen Schroders. Mae'r Gronfa Aml-Asedau yn buddsoddi mewn ystod o ryw 40 o ymddiriedolaethau uned ac ymddiriedolaethau buddsoddi ar draws llawer o fathau o asedau a marchnadoedd daearyddol. Caiff unedau yn y Gronfa Aml-Asedau eu gwerthu i godi arian ar gyfer taliadau grant a threuliau gweinyddol. Dyma pam y disgrifir yr asedau fel rhai sydd 'ar gael i'w gwerthu'. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw gynlluniau i ddatod y gronfa waddol gyfan.

Ar ddechrau 2010–11, rheolwyd y buddsoddiadau hyn, ar ran CGDG, gan JP Morgan Asset Management (London) Limited. Yn rhan gyntaf y flwyddyn, datodwyd y buddsoddiadau a throsglwyddwyd yr arian i Schroders. Mae hyn yn esbonio gwerth uchel ychwanegiadau a gwarediadau yn 2010–11.

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Cost a gwerth llyfr net | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 26,929 | 24,926 |
| Ychwanegiadau | 88 | 33,716 |
| Gwarediadau | (2,937) | (31,657) |
| Incwm cronedig | 0 | (56) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 24,080 | 26,929 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwerth llyfr net | | |
| Wedi'u rhestru ar | | |
| Gyfnewidfa Stoc Llundain | **0** | 0 |
| Buddsoddiadau heb eu rhestru | **24,080** | 26,929 |
| | **24,080** | 26,929 |
| Cost | **24,080** | 26,929 |
| Gwerth marchnad | **26,398** | 29,310 |
| Elw heb ei realeiddio | **2,318** | 2,381 |

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i drethiant ar enillion a realeiddir gan CGDG.

Ffigurau dadansoddiad o fuddsoddiadau (yn ôl cost llyfr), ar ddiwedd y flwyddyn, oedd:

| | **2011–12 %** | 2010–11 % |
|---|---|---|
| Bondiau | **7** | 5 |
| Ecwiti'r DU | **41** | 45 |
| Ecwiti Ewrop (ac eithrio'r DU) | **2** | 4 |
| Ecwiti Gogledd America | **4** | 4 |
| Ecwiti Siapan a'r Dwyrain Pell | **6** | 6 |
| Ecwiti marchnadoedd sy'n datblygu | **3** | 4 |
| Cronfeydd ecwiti byd-eang | **6** | 3 |
| Eiddo | **7** | 7 |
| Elw/sicrwydd absoliwt | **16** | 17 |
| Ecwiti preifat | **0** | 1 |
| Seilweithiau | **2** | 0 |
| Arian Parod | **2** | 0 |
| Nwyddau | **4** | 4 |
| | **100** | 100 |

## 13. Symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy – y cyfan yn ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2011–12 £'000** | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **25** | 34 |

Nid oes darpariaeth drwgddyledion wedi'i chreu gan nad ystyrir yr un o'r eitemau uchod yn anadferadwy.

## 14. Symiau sy'n daladwy: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2011–12 £'000** | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau gweithredol sy'n daladwy | **1** | 1 |
| Symiau eraill sy'n daladwy gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol | **4** | 2 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **38** | 41 |
| | **43** | 44 |

Ni sicrhawyd unrhyw un o rwymedigaethau CGDG. O'r symiau uchod ar gyfer symiau gweithredol a symiau eraill sy'n daladwy, roedd £4,000 yn daladwy i gyrff llywodraeth ganolog (2010–11: £2,000).

## 15. Ymrwymiadau grant

| | **2011–12 £'000** | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **6,667** | 8,518 |
| Grantiau a dalwyd yn y flwyddyn | **(9,649)** | (11,983) |
| Ymrwymiadau a grëwyd yn y flwyddyn | **4,989** | 12,716 |
| Dad-ymrwymiadau | **(643)** | (2,584) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **1,364** | 6,667 |

Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus yn y cyfnodau canlynol:

| | **2011–12 £'000** | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn blwyddyn | **1,364** | 6,667 |
| Mewn dwy i bum mlynedd | **0** | 0 |
| | **1,364** | 6,667 |

Mae ymrwymiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus yn ôl sector, fel a ganlyn:

| | **2011–12 £'000** | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Balansau sy'n ddyledus | | |
| – i lywodraeth ganolog | **624** | 3,645 |
| – i awdurdodau lleol | **350** | 319 |
| – i gyrff eraill | **390** | 2,703 |
| | **1,364** | 6,667 |

## 16. Ymrwymiadau

Mae cyfanswm yr ymrwymiadau sy'n ddyledus o dan brydlesi gweithredol fel a ganlyn:

| | **2011–12 £'000** | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Eiddo prydles fer | | |
| – yn dod i ben ymhen blwyddyn | **0** | 0 |
| – yn dod i ben ym mlynyddoedd dau i bump | **0** | 0 |
| – yn dod i ben wedi hynny | **91** | 96 |
| | **91** | 96 |

Yn ychwanegol, codwyd ymrwymiadau prydlesi eiddo prydles fer o £10,839,000 (2010–11: £11,418,000) ar weithgareddau dosbarthu Loteri CGDG ac fe'u datgelir yn y cyfrifon hynny.

Ar 23 Mawrth 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) gytundeb i symud i'r rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG, yn 7 Holbein Place, Llundain. Ar 24 Mai 2011, llofnododd CCC isbrydles. Mae'r isbrydles hon am oddeutu 13 o flynyddoedd a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.7miliwn – y bydd bron y cyfan ohono'n cael ei ailaseinio i weithgareddau dosbarthu Loteri CGDG. Nid yw'r derbyniadau disgwyliedig oddi

wrth CCC wedi'u didynnu o'r ymrwymiadau a ddatgelir yn y tabl uchod.

Ar 6 Mai 2011, cwblhaom ein prydles ar gyfer swyddfa newydd yng Nghaerwysg am gyfnod o wyth a hanner o flynyddoedd hyd 28 Medi 2019 gyda chyfanswm ymrwymiad o £201,995. Ar 30 Mawrth 2012, fe wnaethom adnewyddu'r brydles ar gyfer ein swyddfa yn Leeds am gyfnod o saith mlynedd hyd 28 Chwefror 2019 gyda chyfanswm ymrwymiad o £319,235. Bydd yr holl gostau hyn yn ymddangos yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthu Loteri CGDG.

Mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 17 yn pennu gofyniad i brydlesi eiddo gael eu rhannu rhwng eu helfennau tir ac adeiladau. Nid oes unrhyw raniad wedi'i wneud yn y ffigurau uchod ar gyfer eiddo prydles fer gan mai bach iawn o dir sydd o dan y prydlesi hyn.

Nid oes gan CGDG unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer, nac ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar eu cyfer.

## 17. Nodiadau i'r Datganiad Llifoedd Arian

a) Cysoni diffyg gweithredol i all-lif arian net o weithgareddau gweithredu

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredol | **(4,379)** | (10,192) |
| Llog sy'n dderbyniadwy | **25** | 103 |
| Ychwanegu'n ôl eitemau nad ydynt yn arian | | |
| – dibrisiad | **2** | 1 |
| – symudiad mewn darpariaethau | **0** | 0 |
| – gostyngiad yn y gronfa wrth gefn ymrwymiad grant | **(5,303)** | (1,851) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn symiau derbyniadwy (ac eithrio cyfalaf a buddsoddiadau) | **9** | (32) |
| Gostyngiad mewn symiau di-gyfalaf sy'n daladwy | **(1)** | (5) |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | **(9,647)** | (11,976) |

b) Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau i gael | | |
| – eiddo, peiriannau ac offer | **(0)** | (3) |
| – asedau sefydlog anniriaethol | **(0)** | (0) |
| – asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | **(88)** | (33,716) |
| Derbyniadau o werthiannau | | |
| – eiddo, peiriannau ac offer | **0** | 0 |
| – asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu | **3,101** | 36,811 |
| | **3,013** | 3,092 |

c) Dadansoddi newidiadau mewn cyllid net

| | Ar 1 Ebrill 2011 £'000 | Llifoedd arian gweithredol £'000 | Cymorth grant £'000 | Ar 31 Mawrth 2012 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Arian yn y banc | 6,732 | (6,634) | 0 | **98** |

## 18. Trafodion partïon perthynol

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y DCMS. Ystyrir bod y DCMS yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri) wedi cael trafodion materol amrywiol, heblaw dyfarniadau grantiau, â dau endid yr ystyrir mai'r DCMS sy'n eu noddi, sef y Gronfa Loteri Fawr ac English Heritage. Yn ogystal, mae CGDG wedi cael nifer o drafodion materol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru gan ein bod yn defnyddio Cadw i ddarparu cyngor arbenigol a monitro ar rai o drafodion y Loteri. Gellir cael mwy o fanylion am y trafodion hyn a balansau yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthu Loteri CGDG.

Ar 23 Mawrth 2011, llofnododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC) gytundeb i symud i'r rhan fwyaf o lawr cyntaf swyddfeydd CGDG, yn 7 Holbein Place, Llundain. Mae CCC yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir ar y cyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, DEFRA, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Ar 24 Mai 2011, llofnododd CCC isbrydles. Mae'r isbrydles hon am oddeutu 13 o flynyddoedd a bydd yn arwain at daliadau rhent i CGDG gwerth cyfanswm o £1.7miliwn. Yn ogystal, bydd cyfraniadau at daliadau am wasanaeth o ryw £70,000 y flwyddyn ar lefelau prisiau 2011–12. Ar 31 Mawrth 2012, roedd £10,000 yn ddyledus am daliadau am wasanaeth.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr a phanelwyr arbenigol ddatgan eu cysylltiad ar ddechrau pob cyfarfod a pheidio â mynychu unrhyw ran o'r cyfarfod hwnnw lle mae'r cais hwnnw am grant yn cael ei drafod. Ni chymerant unrhyw ran yn y penderfyniad ynglŷn â dyfarnu grant nac unrhyw benderfyniad dilynol a wneir ynglŷn â'r grant. Mae yna reolau llym yn ymwneud â'r amgylchiadau y gall Ymddiriedolwyr a phanelwyr dderbyn gwaith am dâl gan y sawl sy'n derbyn grant. Felly, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon na wnaeth yr unigolion mewn unrhyw achos ddylanwadu ar y broses benderfynu.

Nid oedd gan Ymddiriedolwyr na phanelwyr fuddiant mewn dyfarniadau CGDG a wnaeth y Gronfa yn 2011–12. Mae manylion buddiannau mewn grantiau'r Loteri wedi'u nodi yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthu Loteri CGDG.

Nid oedd unrhyw drafodion masnachol eraill yr oedd gan Ymddiriedolwyr neu staff fuddiant neu ddylanwad materol ynddynt.

Bydd trafodion partïon perthynol wedi digwydd yn 2011–12 hefyd, ar ffurf taliadau grant, a oedd yn ymwneud â dyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd trafodion partïon perthynol ar gyfer dyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol wedi'u datgelu yng nghyfrifon y blynyddoedd hynny ac ni chânt eu hailadrodd yma.

## 19. Cronfa wrth gefn gwerth teg

| | 2011–12 £'000 | 2010–11 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | **2,381** | 6,245 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | **(63)** | (3,864) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **2,318** | 2,381 |

Mae'r gronfa wrth gefn yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng cost llyfr a gwerth marchnad asedau ariannol hirdymor ar gael i'w gwerthu (gweler nodyn 12). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth marchnad eiddo, peiriannau ac offer (gweler nodyn 11) yn berthnasol.

## 20. Offerynnau ariannol

Mae datgeliad llawn o dan IFRS 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau', yn sylwadau'r rheolwyr.

## 21. Datganiad o golledion

Ni wnaeth CGDG unrhyw golledion yn ystod y flwyddyn (2010–11: £0).

# Cadeirydd, Ymddiriedolwyr a Rheolwyr


### Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG

*Cadeirydd*
Y Fonesig Jenny Abramsky [2]

*Ymddiriedolwyr*
Kim Evans [2]
Yinnon Ezra [1]
Kathy Gee
Doug Hulyer [1]
Dan Clayton Jones hyd nes 11 Ionawr 2012
Hilary Lade [2]
Alison McLean [1]
Richard Morris o 16 Mai 2011
Atul Patel [2] o 16 Mai 2011
Seona Reid o 1 Ebrill 2011
Ronnie Spence [1]
Virginia Tandy
Richard Wilkin [2] hyd nes 11 Ionawr 2012
Manon Williams o 12 Ionawr 2012
Christopher Woodward

### Bwrdd y Rheolwyr

*Prif Weithredwr*
Carole Souter [2]

Robert Bewley
Karen Brookfield
Judith Cligman
Anne Jenkins
Louise Lane
Eilish McGuinness
Sheena Vick
Steve Willis


1 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
2 Aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (sydd hefyd yn cynnwys tâl)


### Panel buddsoddi CGDG

Sarah Bates
Richard Killingbeck
Syr Laurie Magnus

### Panel ymgynghorol CGDG

Noel Annesley
Syr John Guinness
Richard Ovenden
Rosalind Savill
Jonathon Scott
Giles Waterfield


### Tîm CGDG


*Pennaeth CGDG*
Fiona Talbott
020 7591 6008

*Uwch Swyddog Grantiau*
Vanessa Wells
020 7591 6115

*Swyddog Grantiau*
Suzanne Baker
020 7591 6068

*E-bost*
nhmf_enquiries@nhmf.org.uk

### Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol/National Heritage Memorial Fund

7 Holbein Place
London
SW1W 8NR

*Ffôn*
020 7591 6000

*Ffacs*
020 7591 6001

*Ffôn testun*
020 7591 6255

*Gwefan*
www.nhmf.org.uk


# Cydnabyddiaethau


Ffotograffiaeth: (Clawr blaen) Cylchig gwydr lliw, llun Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich

Jenny Abramsky © Debra Hurford Brown

*The Watsons* Jane Austen, llun o Argraffiad Digidol Llawysgrifau Ffuglen Jane Austen, golygydd Kathryn Sutherland (www.janeausten.ac.uk)

Cadw drws agored – cartref Hedd Wyn: Llun o'r gadair farddol a phortread Hedd Wyn trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Yr Ysgwrn, llun Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru

Rhan o Ystad Wards © Patricia ac Angus Macdonald/SNH

Coffr a stand Beckford, llun Ymddiriedolaeth Tŵr Beckford/H. Blairman a'i Feibion

Celc aur Eingl-Sacsonaidd © Amgueddfeydd ac Orielau Leeds

Archif Is-ieirll Melville, lluniau trwy garedigrwydd Cofnodion Cenedlaethol yr Alban

Cist win arian yr Arglwydd Raby: llun manylion trwy garedigrwydd Sotheby's; llun o'r gist trwy garedigrwydd Amgueddfeydd ac Orielau Leeds

Awyrennau Dornier Do17 yn hedfan © Casgliad Chris Goss

Cylchigau gwydr lliw o'r 16eg ganrif, delweddau Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd gan the right stuff

Argraffwyd gan Pureprint, cwmni CarbonNeutral® sydd wedi'i achredu o dan system rheoli amgylcheddol ISO 14001, ac sydd wedi cofrestru o dan Gynllun Ecoreoli ac Archwilio EMAS. Mae technoleg argraffu amgylcheddol Pureprint yn defnyddio inciau sy'n deillio o lysiau, mewn proses wastraff isel lle caiff 99% o'r holl wastraff ei ddargyfeirio o dirlenwi.

Argraffwyd ar Revive 75 Silk, papur a ailgylchwyd sy'n cynnwys isafswm o 75% o wastraff ailgylchedig ac a weithgynhyrchir mewn melin bapur a achredwyd o dan system rheoli amgylcheddol ISO 14001.

Ailgylchwch ar ôl ei ddefnyddio.

TSO

information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o'r ffynonellau isod:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29
Norwich NR3 1GN

Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 0870 600 5522
Archebion trwy'r Llinell Frys Seneddol am bris Lo-Call: 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Y Siop Lyfrau Seneddol**
12 Bridge Street
Parliament Square
London SW1A 2JX

Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Y Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill**



ISBN 978-0-10-297819-3

9 780102 978193